YR YMOFYNYDD.

RHIF 56.] EBRILL, 1852. [CYF. V.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG.

YR oedd Iolo Morganwg yn un o brif hynodion Cymru yn niwedd y ganrif ddiweddaf a dechreuad y ganrif bresenol. Ennillodd lawer o barch mawrion y wlad a dysgedigion ei oes; ac y mae ei enw yn eithaf teilwng o'r parch mawr a roddir iddo yn gyffredin. Yr oedd yn ddyn, yr hwn nad anghofid yn hawdd ar ol ei weled unwaith—gan mor ddieithr oedd ei ymddygiad, ac mor hynod ei nodweddiad, ei ddybenion, ei olygiadau, a'i weithredoedd. Yr oedd yn ddyn neillduol, ac yn dra annhebyg i ddynion yn gyffredin—yr oedd ynddo gymmaint o rinweddau a ellai'r galon eu coledd a'r meddwl eu cymmeradwyo—fel yr oedd yn gadael argraff pleserus ar ei ol pa le bynag yr elai; ac er fod ffyrnigrwydd ei ymbleidiad dros hynafion Cymreig, yn peri mynych ddadleuaeth, a syrthder ei ymadroddion yn clwyfo'r rhai nad oeddent yn ei adnabod, y mae llawer o hen deuluoedd goreu Morganwg, yn caru son am ei enw, ac yn barod i ddweyd—

Ti, o Iolo, mawr dy ddawn,
Dy gof sydd ini 'n gyfiawn.

Soniant yn fynych am ei gariad Johnsonaidd tuag at drwyth y planhigyn Chineaidd—am y *wallet* fawr ei gwerth, oedd yn wastad ar ei ysgwyddau, ac yn cynnwys llyfrau, a hen ysgrifau gwerthfawr, heblaw bara beunyddiol a phethau mwy cyffredin—am y prenau bychain, trwy ba rhai yr oedd yn ymdrechu profi athrawiaeth rheidrwydd—ac am y ffon dal, yr hon oedd yn gyfaill parhaus iddo yn ei holl ymgrwydriadau.

Llawer gwaith yr wyf wedi clywed yr hen bobl yn son am ei enw a'i arferion; ac yr oeddwn bob amser yn caru clywed am hynodion yr hen fardd. Ond yr oedd Iolo yn rhyw beth amgenach na chyfaill caredig a dyfyrlawn; ac yr oedd yn teilyngu parch a sylw, o herwydd nodweddion ereill.

Y mae llenyddiaeth y Cymry dan ddyled trwm i ymdrechion a llafur yr hen ŵr; ac nid yw ei gof yn fwy anwyl i neb o'i gydwladwyr, nac i'r rhai a wnant iaith a llenyddiaeth eu gwlad yn destunau myfyrdod. Yr oedd ganddo wybodaeth na feddiannid gan un dyn arall; ac efe a ymroddodd ei hun i chwilio hen lyfrgelloedd, a thansgrifio hen ysgrifau, gyda chymmaint o hunan-ymwadiad a diwydrwydd diflino, nes yw haneswyr Cymru dan ddyled parhaus i'w sel a'i lafur. Dichon fod amgenach haneswyr yn y dyddiau presenol; ond nid oes neb wedi dangos hanner cymmaint o ddiwydrwydd i chwilio am hen gofion; ac y mae llawer o bethau yn awr yn cael eu gwneyd yn destunau myfyrdod, cyfieithad, a beirniadaeth, na fuasent yn adnabyddus yn y dyddiau hyn, oni buasai i'r hen saer cerrig eu cloddio allan o leoedd anial, a'u hennill yn ol o grafangau anghof. Yr ydym, i raddau pell iawn, yn ddyledus iddo ef am adfywiad ein eisteddfodau, yn yr hanner canrif diweddaf; ac er nad ydym yn barnu ei fod yn gywir yn ei holl honiadau, nac yn credu yn ei athrawiaeth, mewn perthynas i'r Urdd Farddonol, yr ydym yn cyfaddef yn llon, fod Iolo Morganwg—trwy y sylw a ennillodd i lenyddiaeth ein gwlad, y tanbeidrwydd gyda pha un y cyhoeddodd werthfawrogrwydd ein barddoniaeth, a'r egni gyda pha un yr ehangodd derfynau ein gwybodaeth hynafiaethol—wedi gwneyd mwy o les i lenyddiaeth a hynafion y Cymry, nac un Cymro a fu farw yn ddiweddar, neu sydd yn awr yn fyw.

Y mae dau ddull i wneyd argraff ar feddyliau dynion, sef, llafaru ac ysgrifennu. Y mae effeithiau un yn uniongyrchol, ac yn fwy amlwg yn oes y llafarwr nac yn yr oesoedd olynol; tra ar y llaw arall, y mae'r ysgrifennydd yn meddu dylanwad parhaus. Yr oedd Iolo yn un o'r llafarwyr—ac yr oedd yn gweithredu a'r tafod yn hytrach nac a'r plyfyn. Am dano ef, megys am Coleridge, dywedir fod ei ddawn ymadrodd yn rhyfeddol; ac fel Coleridge, yr oedd yn meddu dylanwad mawr ar ei wrandawyr; ond nid oes nemawr o gyfansoddiadau Coleridge yn cyfiawnhau ei glod; ac nid yw Iolo wedi gadael un ysgrif ar ei ol, sydd gymesur a'r clod mawr a roddir i'w enw. Cynlluniodd amryw o bethau godidog; ond nid oedd yn meddu amynedd i gyflawni yr hyn a gynlluniai; ac o ganlyniad, y mae llawer o ddynion ieuanc yn methu deall pa fodd yr ennillodd y fath enwogrwydd. Y mae galwad, gan hynny, am ychydig o nodiadau bywgraffiadol yn ei gylch. Bydd yn hoff gan yr hen bobl i adfywio eu cofiant am yr hen fardd; ac y mae yn ddigon tebyg y bydd yn dda gan lawer o lenyddwyr ieuanc, weled hanes archoffeiriad y bobl sydd yn bedyddio eu hunain yn feirdd "yn ol braint a defod beirdd Ynys Prydain."

Cyhoeddwyd llyfr yn ddiweddar dan yr enw, "*Recollections and Anecdotes of Edward Williams, the Bard of Glamorgan, or Iolo Morganwg, B.B.D. By Elijah Waring.*" Y mae llawer o hanes Iolo yn gynnwysedig yn hwn; ond y mae'r llyfr yn rhyfedd o annhrefnus ac yn dra diffygiol; ac y mae yn ofynol i gael amryw o ffeithiau anghenrheidiol o fannau ereill; ond yn yr adroddiadau canlynol, gwneir defnydd helaeth o lyfr Mr. Waring.

Ganwyd ef yn Morganwg, mewn lle a elwir Penon—ac yn Flemingstown neu Flimston, yn yr un gymmydogaeth, ac o fewn dwy filldir i'r un lle, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Cymmerodd ei enedigaeth le ym mis Mawrth, yn y flwyddyn 1745, medd un awdwr* ; ond yn y rhagymadrodd i'r *Lyric Poems*, y mae Iolo ei hun yn dyweyd ei fod yn dri-ar-ugain oed yn 1770 ; ac o ganlyniad, y mae yn fwy tebyg mai yn y flwyddyn 1747 y cafodd ei eni. Saer maen oedd ei dad, am yr hwn y dywedir mai dyn gwirion ydoedd, heb nemawr o awyddfryd efrydol ; ond yr oedd ei fam yn fenyw feddylgar, ac yn ei hawydd am wybodaeth, ei chwaeth llenorol, a'i chariad at ei gwlad, yr oedd yn tebygu i'w mab ; ac yr oedd rhagoriaethau Iolo, fel yr eiddo llawer o enwogion ereill—yn deillio oddiwrth y fam. Rhoddir ychydig o'i hanes foreuol gan Iolo ei hun, ac nid yw yn hawdd ini gael gwell arweinydd.

"Yr oeddwn mor afiach pan yn blentyn (ac yr wyf wedi parhau felly), fel y barnwyd y buasai yn ddifudd i'm gosod yn yr ysgol, lle y cadwyd fy mrodyr am amryw flynyddau. Dysgais yr egwyddor *(alphabet)* cyn y gallwyf gofio yn dda, wrth weled fy nhad yn cerfio cerrig-bedd. Fy mam, enw yr hon cyn ei phriodi oedd Matthews, oedd yn ferch i foneddwr oedd wedi gwario twysged o gyfoeth. Yr oedd wedi cael addysg da ; ac hi a'm dysgodd i ddarllen mewn cyfrol a elwid *The Vocal Miscellany*, gan na chymmerwn addysg o un llyfr arall. Yr oedd fy mam yn gantores beraidd ; a chan imi ddeall mai allan o'r llyfr hwnnw, yr oedd wedi cael ei chaniadau, yr oeddwn innau yn awyddus i'w ddysgu. Gwneuthym hyn mewn ychydig o amser ; ac nid oes gennyf un amheuaeth mai oddiyno y tarddodd fy chwaeth wreiddiol at farddoniaeth. Nid oes un gwirionedd yn y dywediad, *Poeta nascitur, non fit* (y bardd a enir, nis gwneir), a medraf ddweyd fod athrylith barddonol fel pob rhyw arall, yn tarddu oddiar ryw ddamwain a wna argraff parhaus ar feddwl tyner y plentyn. Nid oeddwn yn alluog i brynu un llyfr, gan nad oedd un llyfr-werthwr Cymreig—oddieithr y rhai crwydrol—trwy holl Gymru ; a'r cwbl o'm llyfrau i (neu yn hytrach llyfrau fy mam), oedd y Bibl, gwaith Pope, *Lintot's Miscellany*, *Randolph's Poems*, *Milton's Poetical Works*, ychydig gyfrolau o'r *Spectator*, *Tatler*, a'r *Guardian*, *The Whole Duty of Man*, *Browne's Religio Medici*, a *Golding's Translation of Ovid's Metamorphoses*, mewn hen lythyren, ynghyd a dau neu dri o lyfrau rhifyddol a fynwyd imi gan fy mam, gan yr hon y dysgais ysgrifennu, ychydig o beroriaeth, a'r phump neu chwech o'r rheolau blaenaf mewn rhifyddiaeth.

"Fy ymdrech barddonol cyntaf a wneyd yn y Gymraeg—yr hon oedd iaith y gymmydogaeth—er mai Sais'neg oedd iaith tŷ fy nhad. Yn 1770, bu farw fy ngoreu o fammau ; ond er fy mod y pryd hynny yn dri-ar-ugain oed, yr oeddwn mor ymddifad o wybodaeth am y byd a phlentyn newydd ei eni, fel yr adnabum trwy brofiad chwerw yn ol llaw. Yr oeddwn wedi gweithio wrth gelfyddyd fy nhad, oddiar pan oeddwn yn naw mlwydd oed ; ond nid oeddwn er pan yn blentyn, wedi ymgyfeillachu â'm cyfoedion, nac wedi dysgu eu dyfyrwch. Dychwelwn bob nos tuag ochr tân fy mam, a siaradwn neu darllenwn gyda hi. Pan awn allan, chwennychwn leoedd anghyfannedd—y coedydd neu lan y môr ; a phan y dygwyddwn fod yn

* "Rev. Robert Williams' Biographical Sketches of Eminent Welshmen."

llawen, yr oedd yn ffolineb gwyllt y rhan fynychaf."—*Preface to the Lyric Poems.*

Yn fuan, ar ol marwolaeth ei fam, efe a adawodd Fro Morganwg, o herwydd—medd efe—na allasai fwynhau dedwyddwch, lle nad oedd ei fam i'w gweled mwyach. Ond dichon nad yw hyn ond hanner y gwir, gan fod achos arall yn cael ei enwi gan Mr. Waring, ar awdwrdod Mr. Rhys Davies o Dredegar—yr hwn a ddywed fod Edward—neu "Neddy," fel y gelwid ef—yn dyfod at ei waith bob amser, a *wallet* ar ei ysgwydd, yn cynnwys llyfrau a phapyrau. Nid ai un amser gyda'i gyfeillion i'r tafarndy i giniawa; ond arosai ar ol mewn unigedd; ac nid oedd yn beth anghyffredin i'w gyfeillion, ar eu dychweliad, i ganfod y gwr ieuanc yn darllen neu ysgrifennu, a'r bara a'r caws heb ei gyffwrdd. Ar un achlysur, yr oeddent yn gwneyd ychwanegiad at bersondy. Yr oedd y trigolion wedi ymadael a'r tŷ yn y cyfamser, ond oedd yr anifeiliaid yn trigo yno. Wrth fyned i giniaw, gofynwyd iddo gan ei dad i wylio nad elai'r anifeiliaid i'r tŷ. Addawodd wneyd hynny, ond bu yn fugail anffyddlon. Ar eu dychweliad, cawsant yr efrydydd yn nghanol ei lyfrau; ond yn yr anneddle offeiriadol yr oedd y moch, gwyddau, hwyaid, a'r cywain, yn gwledda yn yr ystafelloedd; yr oedd llô wedi cymmeryd meddiant o'r gegin; ac yn y *parlour* yr oedd asyn pedeir-troed, yn gorwedd yn ei hyd. Ceryddodd ei dad ef yn llym am ei esgeulusdod, ac ynteu a ddigiodd. Cymmerodd ei gŵd ar ei ysgwydd, ac ymaith ag ef heb ddweyd gair o'i ben. Barnodd ei dad y buasai yn myned tua Phont-Nedd-Vychan, at dylwyth ei fam, ac y buasai yn dychwelyd adref ymhen wythnos neu bythefnos; ond ni chlywyd son am dano dros amryw fisoedd, nes o'r diwedd i lythyr ddyfod oddiwrth Iolo, i ddweyd ei fod yn naddu cerrig at bont newydd yn Llundain. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1771; ac efe a arosodd yn Llundain a Bristol am ddwy neu dair blynedd. Yn y cyfamser yr oedd yn myfyrio ar adeiliadaeth *(architecture)*, a'r gwyddorau perthynol i'w gelfyddyd; ac wrth y gwaith o wrteithio ei feddwl, efe a ddamweiniodd, rhywbryd rhwng 1771 a 1773, i ddod am draws Dr. Samuel Johnson, Dygwyddodd un diwrnod fod mewn siop llyfrwerthydd, pan ddaeth dyn o gorffolaeth mawr i mewn, ac a eisteddodd wrth y bwrdd, gan edrych dros y cyhoeddiadau newyddion. Ar ol troi'r dail yn dra brysiog, taflodd hwynt oddiwrtho, gan ddweyd, "Sothach yr amserau, mi welaf," ac a aeth allan heb ddweyd gair yn ychwaneg. Gofynai'r bardd, "Pwy oeddd y boneddwr traws hwnnw;" ac attebai'r llyfrwerthydd (E. Williams, y mae'n ddigon tebyg), mai Dr. Johnson oedd y gwr traws a welodd Iolo. "Beth, Samuel Johnson, awdwr y *Rambler*, *Rasselas*, y 'Geiriadur Saesonaeg,' a'r Pryddestau *London*,' a'r *Vanity of Human Wishes.* Pe buaswn yn gwybod mai efe a eisteddai yn y gadair, buaswn yn sylwi arno yn fwy manol, ac efallai y buaswn yn alluog i fagu calon i'w annerch." Attebai'r siopwr, y gallasai gael y cyfle a ddymunai, ar y cyntaf o'r mis canlynol, gan y byddai Johnson yn dyfod y pryd hynny i dalu ei ymweliad arferol a'r cyhoeddiadau newyddion. Ym mhen y mis, wele'r Cymro ieuanc yn ymddangos; ac wele hefyd y "*growling Doctor.*" Dewisai'r bardd dri o rammadegau, dywedodd mai Cymro ydoedd, ond ei fod yn awyddus i ddysgu Saes'neg, a dymunai gael barn gwr mor ddysgedig—pa un oedd y goreu. Edrychodd y lefiathan ar y llyfrau, ac ar y gwr ieuanc o'i flaen, trodd y dail i weled enwau'r awdwyr, ac attebai yn swrth, "Gwnaiff y naill neu'r llall y tro i chwi, ŵr ieuanc." Digiodd y bardd wrth yr ymadrodd diystyrus, a dywedodd, "er mwyn bod

yn sicr, y prynai hwynt oll." Adroddodd y bardd y chwedl wrth Boswell ymhen blynyddau wedi hynny; a dywedai hwnnw y buasai'r Doctor yn dod yn fwy siriol, pe goddefasid iddo gyfarth a chael ei ffordd ei hun. Ond nid oedd Iolo un amser yn cadw ffrwyn ar ei deimladau, ac ni chymmerai un diystyrwch oddiwrth neb.

O Lundain efe a aeth i Dartford, yn swydd Kent, yn 1773, a thrigodd yno am bedair blynedd wrth ei gelfyddyd saerniaidd. Ar ol treulio dwy neu dair blynedd yn y trefydd mawrion, yr oedd yn dda ganddo gael ail olwg ar wrthrychau gwledig: darfu i effeithiau cynhyrfus golygfeydd naturiol Kent, ynghyd a dylanwad traethawd Dr. Aikin ar *Song-writing*, beri i'r awen ddihuno o'i chwsg; ac o ganlyniad, cyfansoddwyd amryw o'i ganiadau Saesonaeg yn yr amser hwnnw. Nid ydym i ddeall nad oedd wedi cyfansoddi peth barddoniaeth o'r blaen, gan y ceir ymhlith y *Lyric Poems,—The Learned Ignorants, written in* 1772, a *Stanzas, written in London, in* 1773; ond ar ol myned i Kent, yr ymroddodd ei hun i'r awen, yno y cyfansoddodd ei ganiad, *To the Cuckoo, written in* 1775, yr hon a gyhoeddwyd yn y *Town and Country Magazine* am Gorphenaf, yn yr un flwyddyn. Yr oedd yr un amser yn un o ohebwyr y *Monthly Magazine*, ac un neu ddau ereill, ac yn cael ei dalu am ei lafur—a thrwy hynny yr oedd yn ennill arian i brynu llyfrau. Yr oedd ei wybodaeth hynafiaethol a thraddodiadol, yn ei addasu i ysgrifennu erthyglau i'r *Gentleman's Magazine;* ac yr oedd y golygydd yn ei dalu yn llon am ei ohebiaeth—a thrwy hynny, yr oedd yn ffurfio cyfeillach a chydnabyddiaeth a dysgedigion yr oes, ac yn eangu ei ddysg a'i wybodaeth ei hun. Nid oes nemawr o ffeithiau ar glawr mewn perthynas i'w hanes tra yn Nghent; ond y mae Waring yn adgofio dwy chwedl ddifyrus am dano yn yr amser hwnnw; ac efallai y rhydd ddiwenydd i ambell Cymro gwirion, imi eu hail-adrodd.

Gorchymmynodd ei oruchwyliwr un noswaith, iddo fyned yn foreu dranoeth, i fesur mur monwent, fel y gellai anfon *bill* am y gwaith. Aeth Iolo i'r gwely a'i feddwl yn llawn o'r amcan hwn; cododd yn ei gwsg, a gwisgodd ei ddillad, mesurodd y wal, a gosododd y mesur i lawr yn reolaidd yn ei lyfr. Cloch yr eglwys a darawodd *ddau*, ac yna efe a ddihunodd mewn tywyllwch, gan ryfeddu ei fod yn y fonwent, a'r *rule* a'r *pocket book* yn ei law. Rhodiodd o amgylch y fonwent, nes y delai yn ddigon goleu iddo fyned i fesur y wal; ond pan ddaeth goleu ddydd, gwelodd fod y mur wedi ei fesur eisioes, a bod y cwbl wedi ei wneyd yn ei gwsg, ac yr oedd oll yn eithaf cywir! Yr oedd Iolo yn credu mewn cwsgrodiad, sef, *somnambulism;* ac adroddai yr amgylchiad hwn fel prawf a ddaeth dan ei sylw ei hun.

Ar achlysur arall, dododd rai dynion i gredu ei fod mewn cyfeillach a thad y drygioni, sef, y gwr a'r cyrn a'r gynffon a'r droed ewin-hollt, yr hwn a elwir—y diafol. Yr oedd gwr y tŷ lle'r oedd yn aros, yn eithaf sadducead, ac ni fynai gredu mewn canwyll gorph, na drycholaeth, na bodach glas, na chyhiraeth, na dim o'r pethau a gredir gan yr hen bobl yn y wlad. Nid oedd Iolo ei hun a nemawr o goelgred yn perthyn iddo; ond yr oedd wedi blino ar ymffrost y llall; ac er mwyn ei argyhoeddi, addawodd godi y sawl y fynai o blith y meirw, a'i ddwyn ger ei fron. Dygwyd yr anghreddadyn i ystafell dywyll; a'r bardd yn ben-swynwr a aeth tu fewn i gylch sialcog ar y llawr; a thrwy gydweithrediad gwr arall mewn is-ystafell, gyrrasant gymmaint o ofn ar ŵr y tŷ, nes iddo fod yn barchus iawn i'r bobl ysbrydol o hynny allan.

Ymhen pedair blynedd, dychwelodd i Lundain; ac yn fuan, wedi hynny, sef yn 1777, daeth yn ei ol i Fro Morganwg; ac ar ei ddychweliad, ysgrifennodd *Davona's Vale*:—

"No more of LONDON's hateful noise!
Ye madden'd crowds adieu;
Detesting arts, ungenial joys,
I dwell no more with you:
Hail, dear Glamorgan, let me greet
Once more, the favour'd plain;
I fly with gladden'd soul, to meet
My native cot again."

(I'w barhau).

YR EWYLLYS.

DOSPARTHIAD III.

MAE amddiffynwyr yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn dal nad ydyw yr ewyllys fyth yn cael ei phenderfynu heb annogaeth, a bod annogaethau bob amser yn llywodraethu yr ewyllys mewn modd pendant ac anghyfnewidiol; fel nad ydyw yn alluadwy i ddewis y weithred A, a'r un groes iddi a, tra byddo yr annogaethau neu yr amgylchiadau blaenorol yn aros yr un.

Dylid gwahaniaethu angenrheidrwydd yn ofalus oddiwrth Ddiriad *(compulsion)*, oddiwrth yr hyn y mae yn gwahaniaethu yn hanfodol. Nerth allanol yn gweithredu yn groes i farn a thueddiad, ydyw Diriad. Mae angenrheidrwydd yn cau allan bob llywodraeth ddieithr, ac nid ydyw yn caniatau un dylanwad arall ond un—yr annogaeth yn yr ystyr ehang a eglurwyd eisioes, yn cynnwys tueddiad y meddwl yn gystal a'r diben mewn golwg. Mae yr ewyllys yn cael ei phenderfynu mor effeithiol gan annogaethau, pan y byddo y farn a'r tueddiad yn cytuno yn y dewisiad, a pan y byddo ymrysoniad rhwng annogaethau gwrthwynebol, ac y byddo y cryfaf yn tyccio. Nid ydyw angenrheidrwydd mewn un modd yn arwyddo gwrthymdrechiad yn y meddwl yn erbyn y dewisiad y mae yn ei wneuthur. Dylid, am hynny, ochelyd pob gair sydd yn ymddangos yn cynnwys diriad oddiallan, neu yr un fyddo yn trosglwyddo y drychfeddwl am ewyllys yn gwrthwynebu yr ewyllys sydd yn rhagflaenu y gweithrediad; hynny ydyw, o ddwy ewyllys wahanol yn bodoli yn y meddwl ar yr un pryd, megis yn tueddu i ddwyn cymmysgedd i'r ddadl. O achos hyn, nid ydyw yn addas i lafaru am allu anwrthwynebol, neu anorchfygol annogaethau, ac am yr awdurdod sydd gan y meddwl ar ei benderfyniadau ei hun.

Y *fact* y dadleuir drosti yw, fod yr un ewyllysiadau yn sicr ac yn ddigyfnewidiad, yn canlyn yr un annogaethau neu'r amgylchiadau blaenorol; ac na all fod cyfnewidiad yn yr ewyllysiad, ond mewn canlyniad i gyfnewidiad cyfattebol yn yr amgylchiadau blaenorol; hynny ydyw, yn y golygiadau neu sefyllfa y meddwl.

Os ffrwyth dianwadal amgylchiadau blaenorol pendant ydyw ewyllysiadau pendant, rhaid fod rhyw reswn am, rhyw achos i'r, cysylltiad gwastadol hwn

rhwng annogaeth ac ewyllysiad. Mae yr achos hwn, pa un ai adnabyddus ai peidio yn cael ei alw yn ANGENRHEIDRWYDD. Gair a ddychymmygwyd i osod allan effeithiau adnabyddus; achosion anegluredig ydyw Angenrheidrwydd, yn gyffelyb i'r geiriau sugndyniad, *electricity*, *magnetism*, a llawer ereill.

Bu yn cael ei ammeu, pa un ai achosion anianol *(physical)* o ewyllysiadau, ydyw annogaethau ai nage. Ond peth diwerth, ac mewn geiriau yn unig, ydyw y ddadl ar y testyn hwn. Galwer annogaethau, fel y gwelir yn gymmwys, yn achosion celfyddol *(mechanical)*, anianol, neu foesol; neu gwader eu bod oll yn achosion ewyllysiad; mae y *fact*, er hynny, yn aros yr un. Mae ewyllysiadau pennodol yn dilyn annogaethau pennodol, gyda chysondeb mor ddianwadal ag y mae y nodwydd yn dilyn y *magnet*, neu garreg yn ymddarostwng i gyfraith sugndyniad. Mae yr holl effeithiau hyn yn canlyn eu hamgylchiadau blaenorol eu hun, gyda sicrwydd cyfartal; ond ni phriodola un person deallus ymddangosiadau *(phenomena)* mor bell wahanol i'r un achosion. Mae arfer, yr hon ydyw cylafareddes *(arbitress)* iaith, wedi cyfleu y gair anianol at effeithiau a achoswyd ar wrthrychau diewyllys, ac at yr achosion trwy y rhai y mae effeithiau o'r fath yn cael eu hachosi; ond y mae wedi rhoddi yr enw *achosion ac effeithiau moesol* i'r amgylchiadau blaenorol, y rhai ydynt yn llywodraethu yr ewyllys, ac i'r ewyllysiadau sydd yn tarddu oddiwrthynt; ac y mae y gwahaniaethad yn ddigon eglur a dealladwy, er fod hyd y nod, fel y myn yr angenrheidwyr, achosion moesol yn eglur mor ddianwadal yn eu gweithrediadau a yr rhai anianol. Y mae y modd y mae achosion moesol neu anianol yn gweithredu i ddwyn eu heffeithiau eu hunain, tu hwnt i amgyffrediad y deall dynol—bydd hyn yn destyn chwiliad *(disquisition)* arall.

Gallai yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, yr hon nid yw yn haeru dim ond yn unig bod cysylltiad dianwadol rhwng annogaeth ag ewyllysiad, gael ei galw wrth yr enw llai atgas o SICRWYDD. Ond dysgc chwiliwr diduedd am y gwir, i ymddihatru oddiwrth ragfarnau yn erbyn geiriau, ac i ddal sylw ar *fact* ac ymresymiad yn unig.

Mae yr ymresymiad blaenaf, dros yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, yn cael ei ddwyn oddiwrth GYDWYBODOLDEB.

1. Yr ydym yn gydwybodol nag ydym ac na allwn byth ffurfio ewyllysiad, neu gyflawni gweithred, heb annogaeth bennodol.

Os ydym mewn gwirionedd yn meddu y gallu hunan-benderfyniadol ymffrostiedig hwn, ac os ydyw y gynneddf hon yn gorwedd, fel y sicrheir i ni ei bod, wrth sail pob gweithrediad moesol a chyfrifoldeb, gall ei bodoliaeth gael ei wneuthur y sicr. Gwneler profiad. Cynniged dyn i gyflawni gweithred ewyllysiadol heb un annogaeth—cerddedd, er siampl, llefaru, neu daro ergyd. Ca hyn yn analluadwy. Ca ei bod mor hawdd i symmud mynydd oddi ar ei waelod, ag i gyfodi oddi ar ei gadair trwy weithred benadurol yr ewyllys, heb na rheswm na thueddiad dros ei ddewisiad. Mae gennym gydwybodoldeb mor eglur o'r ffact hyn, nes ydyw llawer o'r rhydd-ewyllyswyr eu hunain yn ei addef ef; ond nid yn gyson iawn a darluniad ewyllysrydd, neu a'r dyb o allu hunan benderfyniadol.*

---

* Mae yr ewyllyswyr-rhydd, yn achwyn fod yr angenrheidwyr yn cam-ddeall eu hathrawiaeth hwy, ac yn eu gosod allan fel yn gwadu yn hollol ddylanwad annogaethau. Nid oes un sail i'r cyhuddiad hwn yn erbyn yr angenrheidwyr. Y *ffact* yw, nid oes un ddadl rhyng-

2. Yr ydym yn gydwybodol fod nerth y gweithrediad yn ddiwahan mewn cyfartalwch a nerth yr annogaeth.

Os bydd yr annogaeth yn wan, mae yr ewyllysiad yn egwan, a braidd y mae yn cyfodi uwchlaw sefyllfa o ddifaterwch; os bydd yr annogaeth yn gref, os bydd rheswn a thueddiad yn cytuno mewn gradd ardderchog i yrru y meddwl i weithrediad, mae yr ewyllysiad yn gyfartal rymmus a bywiog; os bydd annogaethau yn gwrthwynebu eu gilydd, mae grym y dewisiad yn gyfartal i ragoriaeth *(excess)* yr annogaeth fyddo yn gorbwyso.

3. Mae y dewisiad yn myned yn fwy anhawdd yn yr un cyfartalwch ag y byddo yr annogaethau yn dynesu at gydbwys; mae yn rhesymol am hynny, i gasgelu, pe baent yn berffaith gydbwys na ellid gwneuthur un dewisiad.

Dywedir mewn gwrthwynebiad, ein bod mewn ffact yn fynych yn dewis allan o bethau cydradd: er siampl, myfi a allaf ddewis un o flaen y llall o nifer o *guineas*, wedi eu gosod ar y bwrdd yn newydd o'r *mint*, er nad oes un rheswm a allir roddi am y dewisiad. Ond y gwir ydyw, er fod *case* o annogaethau cydbwys yn cael, yn fynych, ei ddychymyg, ambell waith iawn y mae yn digwydd mewn gwirionedd. Mae yr ystyriaeth leiaf yn ddigon i droi y fantol lle y mae cydbwysiad yr annogaethau yn berffaith yr un. Yn y *case* dywededig, yr ydwyf yn cymmeryd y *guinea* sydd yn dwyn fy llygad atto, neu yr un sydd yn agosaf, neu fwyaf cyfleus i'r llaw, neu'r cyffelyb. Ac os arferwn ein hunain i adsylwad agos, ni a gawn ym mhob *casè*, lle byddo gwrthddrychau y dewisiad yn berffeith gydbwys, fod rhywbeth yn sefyllfa y meddwl sydd yn ei ogwyddo i sefydlu ar un yn hytrach na'r llall.

Y mae yn addas i gael ei nodi, fod yr holl sylwadau a wnaed uchod, pob appeliad at gydwybodoldeb o ochr yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, yn perthyn i weithrediadau ewyllysiol y meddwl, i attal y dewisiad, i gydmaru, i fyfyriad a'r cyffelyb, yn gystal ag i weithrediadau allanol.

Peth wedi ei gymmeryd yn hollol ganiataol, yw haeru, er fod yr ewyllysiad mewn gwir yn cyfatteb i'r annogaeth, neu yr amgylchiadau blaenorol, y gallai er hynny, ym mhob esampl, ddigwydd yn wahanol; a bod y gallu gan y meddwl ym mhob sampl i wneuthur dewisiad gwahanol; ac y mae hyn yn cyfaddef pob peth y mae pleidwyr angenrheidrwydd yn ystyried yn werth eu hamser i ymdrechu drosto, sef, cysylltiad cyson yr annogaeth a'r ewyllysiad, ac ychydig yw y rhai a ddadleuant nad yw cysylltiad cyson unfurfiol yn arwyddo cysylltiad angenrheidiol. †

---

ddynt ag amddiffynwyr rhydd-did philosophyddol, mor belled ag y mae dylanwad annogaethau yn cael ei addef ganddynt. Ond y mae yr ewyllyswr rhydd yn dadleu dros fodoliaeth, yr hyn y maent yn ei alw, gallu hunan-benderfyniadol goruwch pa beth bynnag sydd yn syrthio dan y darluniad Annogaeth, yr hwn a all weithredu yn fympwyol (*arbitrarily*) naill ai mewn cytuniad ag annogaeth, neu yn groes iddi. Mae rhai yn dal fod y gallu hwn yn cael ei arferu yn fynych, creill, nad ydyw ei weithrediadau ond anaml, ac hyd y nod yn gyfyngredig o fewn ffiniau culion pendant. Mae y Philosophydd sydd angenrheidiwr, yn ammeu yn hollol fodoliaeth y gallu hwn mewn un llun, ac ym mhob gwedd, ac yn erbyn y gallu hwn, a hwn yn unig, y mae ei resymiadau yn cael eu cyfeirio; pa un a ystyrir ei fod yn cael ei arferu ym mhob gweithred ewyllysiol neu mewn un ym mhlith deng mil. "Search's Light of Nature pursued," Vol. 1. chap. 6., Sec. 22, 23, page 146.

† "Edwards on the Will," Part I. Priestley's Illustrations," Sec. I.

ORTHODOXY A HETERODOXY; neu UNION-GRED AC ARALL-GRED.

Syr,—Sylwodd un ysgrifenydd, nid wyf yn awr yn cofio pwy, fod y byd yn cael ei lywodraethu gan *enwau*. Ac yr wyf fi yn credu mai felly y mae yn bod i fesur mawr; a phe bai eisiau, gallwn ddwyn siamplau ddigon i gadarnhau'r peth. Pwy nad yw wedi clywed ystori'r Cwacer a'r Ci?

Yr oedd y *Cyfaill*, mae'n debyg, wedi dal y ci yn yspeilio yn ei dŷ ef. Ac ar hyny annerchodd y bwystfil, gan ddywedyd, "Nid wyf yn ymglywed i'th geryddu, ac nis gallaf ychwaith, oddiar gydwybod, dy ladd di—ond hyn a wnaf i ti—mi roddaf i't *enw drwg*." Gellid dychymyg beth fu'r canlyniad. Ni waeth p'un ai *bad dog* neu *mad dog*, ddeallid fod y Cwacer yn crochwaeddi ar ol y ci; ni fuasai neb mor ffol o chymeryd *lease* ar fywyd yr anifail, druan. Y mae enw drwg, pa un ai yn gyfiawn ai yn anghyfiawn y rhoddid, wedi bod lawer gwaith, ac yn parhau i fod yn achos i ladd y cyfryw sydd wedi digwydd cael yr enw arnynt—nid bob amser yn eu bywydau a'u meddiannau, diolch da i gyfreithiau'r tir—ond etto yn eu cysur a'u defnyddioldeb. Yn nydd mawr y cyfrif, bydd gan rai sydd yn awr yn uchel eu penau fel crefyddwyr, lawer i atteb am dano ar y pen hwn. A thrwm fydd eu heuogrwydd am iddynt, yn eu dall bleidgarwch, wneuthur cam â'u cyd-ddynion ac â'r gwirionedd. Er y dichon iddynt foddloni eu cydwybodau yn awr, fod llwyddiant yr hyn a alwant hwy "yr achos da," yn gwneuthur pob rhyw foddion a mesurau yn gyfreithlon, hyd yn oed rhai annheg, anystyriol, ac erledigaethus; cyn wired â'r Efengyl, ni wnaiff mo'r tro iddynt ymesgusodi felly yn nydd y farn, a dywedyd, "Onid er mwyn dyrchafu dy enw di, Arglwydd, y gwnaethom y cam a'r anwiredd hyn?" Yn ol iaith pleidgarwch sectyddol "cŵn ag sy'n yspeilio'r praidd" yw y sawl sydd yn beiddio argyhoeddi eu pobl hwy o'u camsyniadau. Ac y mae drwg-liwio y cyfryw, a galw enw drwg arnynt, yn atteb y pwrpas yn rhy dda. Ond i ddychwelyd at y pwngc.

Orthodoxy sydd air Groeg, wedi ei gyfansoddi o *orthos* (cywir, union) a *doxé* (tyb, cred). Heterodoxy hefyd sydd air o'r un iaith, wedi ei gyfansoddi o *heteros* (arall) a *doxé* (tyb, cred). Gan hyny y mae'r ddau air Cymraeg "union-gred" ac "arall-gred," yn cyfatteb yn bur dda i'r ddau air Groeg "orthodoxia" a "heterodoxia," neu'r geiriau benthycol Saisneg, "orthodoxy" a "heterodoxy." Mor belled a hyn y mae'r maes yn glir o'n blaen. Ond yn gymaint ag nas gall yr un peth fod a pheidio a bod ar yr un pryd, os caniateir am unrhyw gred, mai honno yw yr union-gred, fe ganlyn yn anocheladwy fod yr arall-gred, neu bob cred groes iddi, yn gyfeiliornus. Y mae hyn etto yn ddigon amlwg; nis gall y gwirionedd fod yn groes iddo ei hun. Ond pwy ymhlith dynion sydd yn ddigonol i benderfynu dros bawb eraill, pa un yw yr union grêd? Pob crediniwr cydwybodol a wnâ hyn drosto ei hun, hyd eithaf ei allu a'i gyfleusderau; ac mor belled ag y mae ei ymchwiliad a'i wybodaeth a'i argyhoeddiad yn cyrhaedd, y mae efe yn credu, ac nis gall lai nâ chredu, fod ei dyb neu'i gred ef yn gywir neu union, ac o ganlyniad fod yr arall grêd, neu'r grêd groes iddi, yn gyfeiliornus. Dyma fel y mae gydâ myfi, os ydwyf yn adnabod fy hun. Ystyriwn fy mod yn cael cam pe'm gelwid yn *figot* am hyn—pe'm cyhuddid o gulni am fy mod yn dal, fod yr hyn wyf yn ei gredu, yn wirionedd, a bod yr hyn sy'n groes i'r gwirionedd yn gyfeiliornad. Pob crediniwr cydwybodol, a fu, y sydd, neu a ddaw, a grêd yn ddibetrus mai cyfeiliorni mae'r sawl sy'n credu

yn wahanol iddo ef ac unrhyw bwngc o'i grediniaeth. Wel, dyna gymydog neu frawd, a gredwyf ei fod yn cyfeiliorni ar bwngc pwysig; y mae yntau yn credu fy mod inau yn cyfeiliorni ar yr un pwngc. Nid yw hyn yn un prawf nas gall y gwirionedd fod gyda'r naill neu'r llall o honom; er, rhaid addef, nad ydyw ei waith ef yn gwahaniaethu oddiwrthyf fi yn profi dim yn rhagor nag fy mod i yn gwahaniaethu oddiwrtho ef. Ond yr wyf yn credu fod cyfeiliornad fy mrawd yn ei ddarostwng ef i boen a cholled mwy neu lai. Gan hyny, os cadwaf wrth y rhëol euraidd o wneuthur i arall fel y dymunwn iddo yntau wneuthur i mi, a allaf lai nâ cheisio ei argyhoeddi trwy resymau?

Ond os trôf, ar yr un pryd, y clust y byddar i'r rhesymau a ddycco efe dros ei gred, pa le bydd fy ymlyniad wrth y rheol euraidd grybwylledig; a pha le fy nghydnabyddiaeth o fod gan fy mrawd yr un hawl a minau, ac ei bod yn ddyledswydd arno ef fel minau i farnu drosto ei hun? Byddwn, wrth wneuthur felly, yn euog o gulni crefyddol—yn *figot* parod. Ac os heb geisio, neu wedi ceisio methu, argyhoeddi fy mrawd, y byddwn i alw enwau drwg arno, megis, heretic, cyfeiliornwr, anffyddiwr &c., byddwn mewn effaith yn ceisio sefydlu fy'm cred bersonol fel yr iawn neu'r union-gred, yn wageddus, yn draws-arglwyddol ac yn eledigaethus. Na atto Duw, i mi fyth gynnyg gwneuthur y fath beth. Gwell genyf gan mil o weithiau fod ymhlith yr erlidiedig na bod gyda'r erlidwyr.

Dywedodd un Sais enwog, "*Orthodoxy is my own doxy; heterodoxy is another person's doxy.*". Nid oedd efe yn mhell o'i le, gyda golwg ar ryddid a hynawsedd Crefyddol; ac y mae'r iaith gellweirus yn dwyn cerydd llym i'r sawl ni fynant glywed am un *doxy* (tyb) ond en *doxy* hwy eu hunain. Ond y mae gwirionedd yn beth sylweddol, ac anghyfnewidiol. Nid yw yn ymddibynu yn y mesur lleiaf ar amrywiaethau barn. Y mae yn drech na chyfeiliornad, a bydd yn sicr o gario'r dydd yn y pendraw. Y mae yn gadarn fel sylfeini'r Nef. Ac y mae Duw o'i anfeidrol gariad wedi dangos i ni "nodau ei wirionedd ef." Nid oes raid i'n bellach ymbalfalu am dano. Gosododd Efe ei nôd ddwyfol ar wirionedd yr Efengyl. Dangosodd i ni trwy arwyddion anwadadwy mai Crist yw "y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd;" yr hwn sydd yn abl ac yn ewyllysgar "i'n harwain at ein Tad." Beth a fynwn yn rhagor?

Ond yn y dyryswch y sydd o wag-dybiadau dynion, hyd yn oed am y gwirionedd dadguddiedig, y mae gofyn bod yn ofalus ac yn bwyllog i wahaniaethu rhyngddo a'r gau-athrawiaethau sydd wedi ymlusgo i mewn dan ei enw, trwy anwybodaeth a thwyll offeiriadol—i wahaniaethu y gwenith pur oddiwrth yr efrau sydd wedi cael cyd-dyfu â hwynt yn y maes.

Y nôd o *Orthodoxy* gyfrifedig, ydyw y nôd fwyaf cymeradwy. "*Orthodoxy, orthodoxy*; yr union-gred, a gocheler y sawl sydd yn dysgu yn groes iddi!" Dyma'r hyn mae'r cymbalau oll braidd yn tingcian yn ddiorphen yn nghlustiau'r werin. Nid rhyfedd bod y di-ymchwiliad yn cymeryd ei bod yn nôd anffaeledig. Ychydig ystyriaeth difrifol, pa fodd bynag, a ddangosai *mai nôd twyllodrus* ydyw. Y peth a gyfrifir yn orthodoxy mewn un oes neu wlad a gyfrifir yn gyfeiliornad mewn oes neu wlad arall. Ond nid yw'r gwirionedd yn cyfnewid gyda chyfnewidiad amser na chyfnewidiad llywodraethau. Heb fyned i maes o diriogaethau ein Brenhines, yn yr Iwerddon, er esiampl, nid yr un peth yw orthodoxy y llywodraeth ag orthodoxy'r werin. Yr un peth raid ei ddywedyd am "hynafiaeth tyb, llais y lluaws, ac awdurdod

gwladol"—nodau twyllodrus ydynt bob yr un o honynt. Yr wyf yn ystyried mai gwastaffu amser fyddai ceisio dangos hyny.

Arferir enwau eraill ag sy'n atteb yr un dibenion gwag a niweidiol a'r enw orthodoxy, "Dyma ydyw crêd y corff," neu "dyma athrawiaeth y *Conference*;" neu "dyma yr hyn a awdurdodir gan y Gymmanfa, neu gan yr Esgobion" &c.; yr un peth ydyw mewn effaith a dywedyd, "dyma ydyw orthodoxy.' " Y mae yn wir yn ddyledswydd ar bob Cristion i broffesu ac i amddiffyn yr hyn y mae efe yn gredu sydd yn wirionedd. Ond pwy bynag sy'n cymeryd arno i alw yr enw orthodoxy ar ei gred ef a'i blaid, y mae yn anghofio ei hun. Honniad anystyriol a rhyfygus ydyw, o awdurdod ysbrydol, os nad o anffaeledigrwydd. Ac y mae wedi bod yn niweidiol dros ben, er dwyn llaweroedd yn gaethion i sectyddiaeth, a gyrru eraill i dir anffyddiaeth.

Ond yn ddi-ddadl y mae nodau ar y gwirionedd; y rhai ydynt yr un yn mhob oes, ac yn mhob gwlad.

A all neb o'ch darllenwyr ddangos amgenach nodau na'r rhai canlynol—nodau anffaeledig i'r ymofynydd cydwybodol yn ei ymchwiliadau? "Y mae pob gwirionedd yn gyson âg ef ei hun; ac y mae yn gyson â phob gwirionedd arall." A ganiateir i ddwyn y tybiau poblogaidd i'w profi wrth y rheol hon? Ond rhag blino amyneddd eich darllenwyr, gadawaf y peth yn y man ar hyn o bryd; a gorphwysaf, Yr eiddoch,

PHILALETHES.

CYF-RESYMAU WOLZOGENIUS, *

YN Y RHAI Y DANGOSIR FOD ATHRAWIAETH Y DRINDOD YN DADYMCHWELYD EI HUN.—DOSPARTH I.

1af. Oherwydd ei bod yn canlyn oddiwrth yr athrawiaeth hon, *nad oes ond un Duw*, ac etto fod tri o Dduwiau. Fel hyn—

Mae'r Tad yn Dduw—mae'r Mab yn Dduw—mae'r Ysbryd Glân yn Dduw.

Gan hynny y mae tri o Dduwiau.

Y mae hyn yn ymresymu ar y tir y mae Trindodiaid eu hunain yn gymmeryd. Oblegid pan y mynnant brofi fod tri pherson mewn un Duw, dywedant—

Mae'r Tad yn berson Dwyfol—mae'r Mab yn berson Dwyfol—mae'r Ysbryd Glân yn berson Dwyfol;

Gan hynny y mae'n rhaid fod tri pherson Dwyfol.

Yn yr un modd yn gymmwys yr ydym ninnau yn ymresymu—

Mae'r Tad yn Dduw Goruchel—mae'r Mab yn Dduw Goruchel—mae'r Ysbryd Glân yn Dduw Goruchel;

Gan hynny y mae tri o Dduwiau Goruchel.

Yr un fath yn gymmwys a phe y dywedem—

Mae Petr yn ddyn—mae Paul yn ddyn—mae Ioan yn ddyn;

Gan hynny y mae tri o ddynion; neu,

Mae Michael yn angel—mae Gabriel yn angel—mae Raphael yn angel;

Gan hynny y mae tri o angylion.

---

* Vide Bibliotheca Fratr. Polon.—Wolzogenii Oper. Tom. Alter, pa. 337.

2. Y mae athrawiaeth y Drindod yn dymchwelyd ei hun, o herwydd y mae'n canlyn oddiwrthi fod un person yn berson arall. Fel hyn—

Y Tad yw'r *unig* Dduw—y Mab yw'r *unig* Dduw;

Gan hynny y Tad yw'r Mab. Etto,

Y Tad yw'r *unig* Dduw—yr Ysbryd Glân yw'r *unig* Dduw;

Gan hynny y Tad yw'r Ysbryd Glân. Etto,

Y Mab yw'r unig Dduw—yr Ysbryd Glân yw'r unig Dduw;

Gan hynny y Mab yw'r Ysbryd Glân.

3. Y mae'n canlyn oddiwrth yr athrawiaeth hon, mai *nid* y Tad *na'r* Mab, *na'r* Ysbryd Glân yw'r un Gwir Dduw. Fel hyn—

Y Tad yw'r un gwir Dduw—nid y Tad yw'r Mab;

Gan hynny nid y Mab yw'r un Gwir Dduw. Etto,

Y Tad yw'r un gwir Dduw—nid yr Ysbryd Glan yw'r Tad;

Gan bynny nid yr Ysbryd Glân yw yr un gwir Dduw. Etto,

Y Mab yw'r un gwir Dduw—nid y Mab yw'r Tad;

Gan hynny nid y Tad yw'r un gwir Dduw.

4. Mae'n canlyn fod pob un o bersonau y Drindod yn cael ei rannu i dri pherson. Fel hyn—

Y mae'r un Duw yn rhanedig i dri o bersonau—yr un Duw yw pob un o'r personau Dwyfol;

Gan hynny y mae pob un o'r personau Dwyfol yn rhanedig i dri o bersonau. CYF.

MR. S. SHARPE AR EPISTOL PAUL AT Y RHUFEINIAID.

Allan o'r "Christian Reformer," am Chwefror 1852.

Y MAE Mr. Sharpe, awdwr y byr-draethawd canlynol ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, yn bur adnabyddus i ddarllenwyr y *Christian Reformer*, ac eraill, fel llafuriwr diwyd a deallus ar faes yr ysgrythyrau sanctaidd. Rhai blynyddau yn ol cyhoeddodd Gyfieithad diwygiedig, yn Saisneg, o'r Testament Newydd. Ac y mae, o bryd bwy gilydd, wedi cyhoeddi amryw nodiadau gwerthfawr, beirniadol ac eglurhäol, ar wahanol ranau o'r Hen Destament a'r Newydd. Y mae wedi cnnill parch haeddiannol oddiwrth garwyr gwirionedd a chysondeb ysgrythyrol. Am bwys a chywirdeb ei resymiad yn y sylwadau canlynol, rhaid i'n darllenwyr farnu drostynt eu hunain, trwy eu cydmaru a'r rhanau cyfeiriedig o'r Epistol.

"Nid yw y llaw-ysgrifau hen yn ein hawdurdodi i wneuthur un rhyw gyfnewidiad mawr yn yr Epistol hwn ymhellach na symud y tair adnod olaf o ddiwedd pen. xvi. i ddiwedd pen. xiv: ond mae hyn yn dangos ddarfod iddo ar ryw amser boreuol iawn gael ei ad-ysgrifenu neu ei gyhoeddi gyda grâdd o diofalwch neu ammherffeithrwydd *(badly edited)*. Ymddengys yn debygol ei fod wedi ei wneuthur i fynu o ddau epistol wedi eu cysylltu ynghyd. Os gwnawn farnu amcan ac ystyr y rhanau, ac yn y modd hyn anturio i'w dosbarthu, gallwn dybied fod y rhan flaenaf wedi ei ysgrifenu at yr eglwys Gristnogol ag oedd yn Rhufain, at ddynion o wadoliaeth a rhagfarnau Iuddewig, ac yn bersonol anadnabyddus i'r Ysgrifenydd; tra yr oedd yr ail ran

wedi ei ysgrifenu at eglwys Gristnogol arall, cynwysedig gan fwyaf o genhedloedd, a llawer o honynt yn gyfeillion agos iddo. Os barnwn oddiwrth enwau y cyfeillion a gyfarchir, yn *Ephesus* oedd yr eglwys olaf. Gall yr epistol at y Rhufeiniaid fod yn gynwysedig o'r unarddeg benodau blaenaf, ynghyd a'r haner olaf o'r bymthegfed benod, yn dechreu gyda'r 14eg adnod.

PEN. I—XI. A PEN. XV. 14—33.

At y *Rhufeiniaid* y mae Paul yn ysgrifenu fel at ddynion nad oeddent yn llai cyfarwydd a'r ysgrythyrau Iuddewig nag ef ei hun, ac yn llawer mwy caeth i'r llythyren yn yr esboniad o honynt. Nid yw ef yn llefaru fel gydag awdurdod, eithr y mae yn ymresymu â hwynt fel dynion ag ydynt i gael eu hargyhoeddi, ac fel dynion sydd a'u rhagfarnau yn gryf yn erbyn ystyried y cenhedloedd fel cyd-dderbynwyr â hwynt o râs Duw; ac etto y mae'r Apostol ei hun yn ystyried fod yr iechydwriaeth sydd trwy'r Efengyl i'r Iuddew yn gyntaf, a dim ond yn ail i'r Cenhedloedd (i. 16).

I symud y rhagfarnau Iuddewaidd hyn trwy resymiadau addasedig i'r meddwl Iuddewig, a thrwy ddifyniad allan o'r ysgrythyrau Hebreig, ydyw amcan yr Epistol hwn. Adrodda ddrygioni y Cenhedloedd yn yr amseroedd gynt, (i. 30), a chalon-galedrwydd yr Iuddewon, ac ychwanega, y bydd i gospedigaeth syrthio ar yr Iuddewon yn gyntaf, a dim ond yn ail ar y Cenhedloedd (ii. 9—11). Y rhai a bechant yn ddiddeddf a gyfrgollir *(a gospir)* yn ddiddeddf, a'r rhai a bechant dan y ddeddf a gospir dan y ddeddf (ii. 16). Rhaid i'r Iuddew gyflawni y dyledswyddau y mae yn eu dysgu i eraill, ac ni fydd defodau allanol heb burdeb tu-fewnol ddim i wneuthur dyn yn wir Iuddew, (ii. 29).

Er hyny y mae'r Iuddew yn feddiannol ar ei ragor-freintiau; iddo ef yr ymddiriedwyd yr ysgrythyrau. Ond nis cyfiawnheir ef trwy weithredoedd seremoniol y ddeddf, eithr trwy ffydd yn Nuw. Mai cyfiawnder trwy ffydd a gyfiawnhâ ddyn, a ddangoswyd yn Abraham, yr hwn nid oedd dan y Ddeddf pan y derbyniodd yr addewidion. A chyfiawnder a gyfrifir ar bawb a gredant yn Nuw, yr hwn a gyfododd yr Iesu o feirw, (iv).

Bu Crist farw i'n cymmodi ni â Duw, (v. 11); ac megis y darfu i drosedd Adda wneuthur pawb *(dynion)* yn bechaduriaid, felly darfu i ufydd-dod Crist wneuthur pawb *(dynion)* yn gyfiawn, (v. 31). Nid ydym, modd bynag, i barhau mewn pechod er mwyn profi maint grâs Duw. Er nad hwyach dan Ddeddf, eithr dan râs, y mae y rhai a bechant yn gaethion i bechod, a chyflog pechod yw marwolaeth, (vi).

Gwaredigaeth ydyw i ni gael ein rhyddhau oddiwrth y Ddeddf trwy farwolaeth Crist, nid am fod y Ddeddf yn bechadurus, eithr am fod ein meddyliau cnawdol ni yn ein harwain i anufyddhâu iddi (vii.); ac yn gymaint ag, od yw ysbryd Crist ynom, y'n gwnaethpwyd ni yn fyw i gyfiawnder (viii. 10); ac yr ydym yn awr yn ddioddef dros Grist, oherwydd ein bod yn gydblant âg ef (viii. 17). Y dioddefiadau hyn ydynt yn anghydmarol llai na'r gogoniant sydd yn nghadw i ni os yr aroswn yn Nghrist; ond dymunai yr Apostol ei fod ef yn Anathema, ac yn golledig i fendithion Cristnogrwydd os gallai efe trwy hyny achub ei frodyr, yr Israeliaid, o'r rhai yr oedd Crist yn un, ac i'r rhai y rhoddwyd yr addewidion (ix. 5).

Ni phalla yr un o addewidion Duw i'r Israeliaid; ond darfu i'r proffwydi

ychwanegu y byddai i Dduw alw eraill i gyfiawnder yn gystal a'r bobl etholedig (ix. 25, &c).

Oherwydd llawer o'r Israeliaid a fuont yn anufydd i'r Ddeddf; ac o'r Cenhedloedd, pwy bynag a wnel gyfiawnder sydd gyfiawn (x. xi. 22). Ond yn y diwedd bydd pawb yn gadwedig, ac, fel y mae'n ysgrifenedig, 'Allan o Seion y daw'r Gwaredwr.' Y fath yw dyfnder golud doethineb Duw, ac mor anchwiliadwy ffyrdd ei farnau ef! (xi. 36).

Yna y mae'r Apostol yn ymesgusodi *(apologise)* am ei waith yn ymresymu â hwy gyda'r fath cofndra, ac ychwanega, ei fod yn gobeithio cael eu gweled yn fuan ar ei ffordd tua'r Hispaen (xv. 14—33).

PENODAU XII—XV. 13. A XVI.

Yn y pedair penod a haner, y rhai a ymddangosant fel pe na baent yn perthyn i'r epistol ymresymiadol hwn at yr eglwys Iuddewig yn Rhufain, y mae'r Apostol yn ysgrifenu at eglwys o droedigion Iuddewig a Chenhedlig yn nghŷd. Wrth y rhai hyn y mae yn llefaru gydag awdurdod, fel hen gydymaith iddynt. Y mae yn eu hannog i ymroddi i garu a gwasanaethu Duw, i burdeb ymarweddiad, i ostyngeiddrwydd, i'r iawn cyflawniad o'r dyledswyddau at ba rai y cymmwysodd Duw y naill a'r llall o honynt, i faddeugarwch (Pen. xii.), i ufydd-dod i bawb mewn awdurdod ac i gariad brawdol (Pen. xiii. 16).

Yn yr eglwys hon, ymddengys bod y troedigion Cenhedlig yn amlach na'r rhai Iuddewig. Y mae'r Apostol yn deisyf arnynt i ochelyd amrafaelion ynghylch gwahaniaethau opiniwn, pa un ai mewn perthynas i fwydydd a dybid yn lân neu aflan, neu ynte ddiwrnodau a cyfrifid yn sanctaidd neu gyffredin. Y mae yn eu hannog i fod yn heddychlon, ac i gyd-ddwyn â'u gilydd (pen. xiv). Y cenhedloedd, y rhai mae'n debyg oedd y rhan amlaf, a ddylent fod yn dyner a pharchus tuag at betrusder cydwybod yr Iuddewon. Y rhai oeddent yn gryf yn y ffydd, ac yn rhydd oddiwrth ragfarnau traddodiadol, a ddylent gyd-ddwyn a'r rhai oeddent weiniaid ac yn petruso. Y mae yn gweddio ar Dduw ar iddynt gael amynedd y naill tuag at y llall (xv. 13).

Mai i *Ephesus* yr oedd efe yn ysgrifenu, a ddangosir yn bennaf trwy ei waith yn annerch Aquilas, Iuddew Rhufeinig, a'i wraig Priscilla, neu Prisca, a'r eglwys oedd yn ymgynull i addoli yn eu tŷ hwynt. Yn *Ephesus* oedd y troedigion sêlog hyn yn derbyn felly eu cyd-addolwyr; (Gwel Actau xviii. 10; a 1 Cor. xvi. 19). Yr oedd Epenetus, blaen-ffrwyth Asia [nid Achaia] wrth gwrs yn trigo yn y gymydogaeth. Andronicus a Junius, ei gyd-garcharorion, a breswylient mewn rhyw ddinas lle yr oedd Paul wedi dioddef carchar; yr oedd *Ephesus* yn un o'r cyfryw. Y mae ei gyfarchiadau caruaidd a gwresog i gynifer eraill, y rhai a eilw efe ei gyd-weithwyr, yn enwedig Mair a mam Rufus, yn profi yr hyn lleiaf ei fod yn ysgrifenu i ddinas lle y buasai yn trigo am rai misoedd neu flynyddau. Nyni a wyddom ei fod wedi bod yn preswylio unwaith yn *Ephesus* dair blynedd; (Gwel Actau xx. 31); ond yn Rhufain, pan ddarfu iddo wedi hyn gyrhaeddydd yno, nid oedd ganddo un cydnabyddiaeth.—Samuel Sharpe."

DEWIS GWOBRWYON RHINWEDD.—Pan fyddo dyn yn dewis gwobrwyon rhinwedd, dylai gofio, fod rhaid iddo roddi heibio fwyniant pechod fel rhan o'i fargen.

EFFEITHIAU NATUR AR Y MEDDWL, I GREU YMDDIRIED.

"Effaith arall," medd Waterston, "ag y mae natur yn gael ar y meddwl, yw—crëu ymddiried. Y mae rhywbeth arosol yn ei chyfnewidiadau parhaus—rhywbeth y gallwn bwyso arno. Y mae'r tymmorau yn myned ac yn d'od, ond gwnant hyny mewn trefn nad ydyw yn newid. Y dydd a ddiflana yn raddol, ac a derfyna mewn nos, ond mor sicr a hyny bydd i'r wawr ganlyn. Bywyd a syrthia i ddadfeiliad, ond allan o ddadfeiliad y tardd bywyd a harddwch adnewyddol. Y mae arwynebedd natur yn agored i gyfnewidiadau anneirif, ond yn mysg yr holl ymdreigliadau hyn yn ol ac yn nlaen, y mae cyfreithiau nas newidir mo honynt. Nid oes y fath beth a damwain yn perthyn iddynt—dim o'r fath beth a thynghed; eithr trefn berffaith dan dywysiad doethineb. Y meddwl sylwgar a wel hyn yn ebrwydd, hyd yn oed meddwl plentyn. Yr ydym bawb yn coelio, ac yn ymddiried i natur. Yr y'm yn dodi'r hedyn yn y ddaear mewn gobaith hyderus. Yn y diwedydd disgwyliwn yn ddianhygoel am ennyniad y sêr yn y ffurfafen; a phan ddel borau, am godiad haul. Y mae gan natur effaith foesol yn ei gwaith yn creu yr hyder yma—y pwyso yma ar gyfreithiau arosol; a rhaid bod y meddwl hwnw yn ddideimlad yn wir nad ydyw yn cysylltu y cyfreithiau hyn â Duw." Diau fod natur oll yn ddwyfol. Gwaith Duw ydyw, ac amlygiad o hono. Etto nid amlygiad ydyw i gyd. Y mae gradd o dywyllwch, yr hyn a wna ymdrech egniol yn angenrheidiol ar ran dyn, a rhyw ddadguddiad ymhellach, ar ran Duw, er cin gwaredu a'n cadw rhag ambeuaeth ac ofnau. Diolchwn i'n Tad o'r Nef am ei air dadguddiedig, ac am iddo ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i'r goleuni trwy Iesu Grist.—Gol.

SILLAFU CYMRAEG.

Mr. Gol.—Gan i Mr. Jones, o Aberdar, a minnau ddirwyn y ddadl parth "Sillafu y Gymraeg" i ben, cyn i'r flwyddyn newydd ddyfod i mewn, dichon eich bod chwi Mr. Gol., ac amrai eraill yn disgwyl cael rhywfath o ymddiheurad *(apology)* dros ail ddechreu, cyn yr egyr yr *Ymofynydd* ei dudalenau i'n groesawi fel cynt. Ond rhag i'r *cyntor* fyned yn fwy na'r *cylwys*, gallaf fi eich sicrhau, mai nid ysfa am ddadl fu yn gymhellai i mi ysgrifio y llinellau canlynol ar yr anmhriodoldeb o osod *m* yn lle *n*, pan ddygwyddo nesaf o flaen *m*. Nage; ond fy ciddigedd dros burdeb cin hen iaith odidog, yr hon y bu gwiw gan cin tadau ei chysegru a gwaed eu calonau. Efallai y byddai yn well hyspysu (er mwyn cael o honof well gwrandawiad gan Mr. Jones) nad tori glô yr wyf yn awr; na, yr wyf wedi esgyn gris yn uwch. At y pwngc.

Y dull mwyaf syml—y rhwyddaf i'w ddeall—a'r hawddaf i'w seinio—ydyw'r goreu i arfer iaith. Yn awr gan fod prif ddysgedigion yr oes yn dywedyd na ddylid ysgrifenu *ym* un amser yn lle *yn*, a Mr. J., o Aberdar, yn *haeru* y dylid, onid yw yn gyfiawn i efelychwyr y dysgedigion hyny ddwyn eu rhesymau dros eu hymddygiadau?

Mae John Mills (Ieuan Glan Alarch), yn dweyd y dylid ysgrifenu y geiriau canlynol efo dwy *n* *.

---

* Gwel y Geirlyfr Ysgrythyrol; tudal 21 a 27.

Anghof	Anghyfiaeth	Anghymod
Anghredu	Anghyfiawn	Anghynefin
Anghydfod	Anghyfieus	Anghysur
Anghrist	Anghyfraith	Anghytun
Anghyfanedd	Anghymarus	Anghywir
Anghyfarwydd	Anghymedrol	Anelwig

Gadawaf i lenyddion Cymru, sydd yn gydnabyddus â J. Jones, ac â John Mills, farnu pa un o'r ddau ydyw'r awdurdod oreu dros y Gymraeg.

Dywed H. Hughes (Tegau)† yn ei Ramadeg fel hyn hefyd:—"Gwallus hefyd yw *yng* ac *ym*; megys, *yng* Nhgaernarfon, *ym* Mangor: *yn* yw yr iawn air yn mhob man os bydd ar wahan; ond y mae *yng* yn flaenddod mewn rhai geiriau cyfansawdd, megis *yngan*; ac *ym* yn fynych iawn, megis *ym*borth, *ym*wadu, &c. Ammhriodol hefyd yw dodi *ang* ac *am* yn negyddion, megis, *ang*nghyson, *ang*nghariad, *am*mherffaith, *am*mharod; *an* ddylai fod yn mhob man, megis *an*nghyson, *an*ngariad, *am*mharod, *am*mherffaith."

Dywed W. Williams (Caledfryn)‡ yn ei Ramadeg fel y canlyn:—"Nid ydyw yr arferiad a wneir o *yn*, yn *yng*, ac yn *ym* yn reolaidd; ac nid oes un ddeddf yn caniatau gwasgu *yn* yn *yng*oleu, ac *yng*nghyngor."

Dywed J. W. Thomas (Arfonwyson),§ eilwaith—"fod *ym* yn tueddu i ddynodi, 'y sy benodawl' (*that is identic*); ac *yn*, y cyflwr 'o fod i fewn' (*being in*).

Gwelir erbyn hyn, oddiwrth y dynodiadau uchod, fod CEINION ein Cenedl mewn dysg, dawn, a dylanwad, yn coleddu yr un syniadau a myfi, ac yn groes wrth gwrs i opinynau Mr. Jones. Ac o herwydd, yn benaf, fod y dysgedigion a nodwyd yn ein cyfarwyddo fel yna, yr anturiais i gynyg rhai sylwadau yn erbyn Mr. J., yr hwn oedd am ein cyfarwyddo i ddal at hen lygredig drefn ein teidiau o gyfnewid *n* i *m*, ac i *ng*, pan yn nesaf o flaen *m* neu *ng*, heb un rheswm dros hyny ond fod y tafod yn cael ei wasgu yn erbyn y taflod wrth seinio *n*, ac yn rydd wrth seinio *m*, a bod yn raid newid sefyllfa y genau ar ol seinio *m*.

Ddarllenydd, dal sylw; os ydyw hyna yn reswm digonol dros gyfnewid *n* i *m*, &c., rhaid ei fod yn reswm mwy digonol dros gyfnewid *g* i *m* ac i *f*, oblegid mae mwy o wahaniaeth rhwng sefyllfa y genau wrth seinio *g* ar ol *f*, nag sydd yn sefyllfa y genau ar ol seinio *n* cyn seinio *m*; oherwydd mae y tafod yn crybachu mwy tua'r taflod, a'r genau yn fwy agored wrth seinio *g*, nag ydyw wrth seinio *n*. Hefyd, y mae y tafod yr un mor rydd yn y genau wrth seinio *f* ag ydyw wrth seinio *m*; o ganlyniad, gwelwn fod gan Mr. J. gryn orchwyl cyn y gall amddiffyn ei bwnc, a dyfod allan o'r ymgyrch yn fuddugoliaethus.

Dysgir ni hefyd fod y cydseiniaid yn dri dosbarth, herwydd fod tri gwahanol sefyllfa ar y genau wrth eu seinio. Gelwir *b*, *f*, *ff*, *m*, *p*, *ph*, yn wefusolion, am eu seinir yn benaf trwy gynorthwy y gwefusau; a'r ail ddosbarth yn ddeintolion, sef, *d*, *dd*, *n*, *s*, *t*, *th*, am y seinir hwy trwy wasgiad y taflawd yn erbyn y dannedd—uchaf o gwrs: a'r drydydd dosbarth yn orchfantolion, sef, *c*, *ch*, *g*, *ng*, *l*, *ll*, *r*, am eu seinir hwy trwy daraw y tafod yn erbyn y gorchfant.

---

† Gwel ei Ramadeg, tudal 71 a 72.

‡ Gwel tudal 85 o'r Gramadeg. § Gwel ei Eirlyfr tudal 100.

Yn awr, yn ol Mr. J., ni ellir seinio y naill ddosbarth, pan yn nesaf o flaen y llall, heb aros rhyngddynt, neu ollwng swn yr *y* i mewn. Fel hyn—ni ellir seinio *d*, *dd*, *n*, *s*, *t*, *th*, pan yn nesaf o flaen *b*, *f*, *ff*, *m*, *p*, *ph*, heb atal y llais neu ollwng sain yr *y* i mewn rhyngddynt. Neu, fel hyn—ni ellir dywedyd *cin byd*, heb atal y llais ac ol *cin* cyn seinio *byd*; neu ollwng sain yr *y* i mewn, megis, *cin*, *byd*, neu cin *y* byd: ac ni ellir dywedyd fel hyn—'Mi a wn mai mawr yw yr Arglwydd,' heb atal rhwng *gwn* a *mai*, neu seinio *y* rhwng y ddau air fel hyn—'Mi a wn *y* mai byw yw yr Arglwydd.'

Cymeraf yn ganiataol fod y ddwy enghraifft yna yn ddigon i chwi er deall fy meddwl, heb bentyru ychwaneg.

Buasai yn burion i Mr. J., cyn myned at y gorchwyl o rwyddau seiniau ein iaith, i gyfansoddi Orgraff Gymreig, a c'asglu cynifer ag a allasai o *votes*, er pasio ei gynllun yn anrhydeddus "yn ngwyneb baul a llygad goleuni." Ar ol iddo ef wneyd fel yna, boddlon iawn fyddaf fi i fyned yn ei ol.

Nid ydwyf fi yn gydnabyddus a mwy na thair rheol i ystwytho seiniau yr iaith; sef, newid llythyrenau i'w gilydd: talfyru geiriau drwy dynu llythyrenau o honynt; a gosod llythyrenau i mewn er hyseinio, neu gyfnerthu geiriau.

Yn gyntaf; Cyfnewid llythyrenau i'w gilydd. Dylid sylwi yma fod pedwar dyben mewn golwg wrth cyfnewid y llythyrenau i'w gilydd; sef, perceiddio sain, a gwahaniaethu amser, ansawdd, a rhif. Yn 1. Newidia *a* i *ai* er lluosogi y rif; megis, llyg*a*d, llyg*ai*d; s*a*nt, s*ai*nt. Yn 2. 1 *e*, er perceiddio y sain; megis, g*a*rdd, g*e*rddi; cl*a*f, cl*e*fyd; n*a*nt, n*e*ntydd—nid n*a*ntydd. Yn 3. 1 *ei*, er gwahaniaethu rhif; megis, gw*a*lch, gw*ei*lch; c*a*rw, c*ei*rw; t*a*rw, t*ei*rw. Ac, yn 4. 1 *y*, megis yn y geiriau cynlynol—al*a*rch, cl*y*rch; asd*a*lch, esd*y*lch, &c.

Yr ail lafariad gyfnewidiol ydyw *e*. Treigla *e* yn gyntaf i *i*—megis m*a*n*e*g, m*i*n*i*g; cas*e*g, ces*i*g. 2. 1 *y*, yn debyg fel mae *a* yn newid i *y*—megis, ab*e*r, cl*y*r; ab*e*rth, cl*y*rth; bachg*e*n, bechg*y*n.

Y trydydd lafariad gyfnewidiol ydyw *o*. Nid oes ond un treigliad i *o*, sef, i *y*—megis, c*o*ll, c*y*ll; on*e*n, *y*n; p*o*rth, p*y*rth.

Y pedwerydd lafariad gyfnewidiol ydyw *w*. *w* a newidia i *y*—megis, s*w*llt, s*y*lltau; s*w*ch, s*y*chau.

Hefyd, cyplysir dwy lafariad yn nghyd, a gelwir hwy deuseiniaid; sef, *ae*, *ai*, *au*, *aw*, *ei*, *eu*, *ew*, *ia*, *io*, *iw*, *iy*, *oe*, *oi*, *ow*, *iu*, *wa*, *we*, *wi*, *wu*, *wy*, *yw*; tyna 21 o'r uchodion; cyfnewidia wyth fel y canlyn—cyfnewidia *ae* i *ai*—dr*ae*n, dr*ai*n. Yn 2, i *ei*—n*ae*n, n*ei*n. Yn 3, i *eu*—m*ae*s, m*eu*sydd. Yr ail ddeusain cyfnewidiol ydyw *ai*, a threigla i *a*—d*ai*dd*a*n o d*ai*l. 2, i *e*—h*ai*arn, h*e*yrn. 3, i *ei*—br*ai*nt, br*ei*ntlen; bug*ai*l, bug*ei*liaid. Y trydydd ddeusain cyfnewidiol ydyw *au*, a threigla i *eu*—*aur*, *eu*rych; am*au*, am*eu*on. Y pedwerydd ddeusain cyfnewidiol ydyw *aw*; treigla *aw* yn naturiol i *o*—megis, *aw*r, oriau; ll*aw*r, ll*o*riau, &c. Y pumed ddeusain cyfnewidiol ydyw *ei*; newidia *ei* i *a*—megis, n*ei*dr, n*a*dredd; ll*ei*dr, ll*a*dron. Y chwechfed ddeusain cyfnewidiol ydyw *ia*, a newidia, yn 1, i *ie*,—megis, *ia*ch, *ie*chyd. Yn 2, i'r trisain *ieu*—megis, *ia*r, *ieu*r; ac i *iai* ar troi y terfyniad *iad* yn lluosog, fel hyn—henur*iad*, henur*iai*d. Y seithfed ddeusain cyfnewidiol ydyw *iw*. Newidia *iw* i *iy*—*iw*rch, *iy*rchod; cwest*iw*n, cwest*iy*au. Yr wythfed ddeusain cyfnewidiol ydyw *oe*. Newidia *oe* i *wy*—megys, *oe*n, *wy*n; c*oe*n, c*wy*n.

Yr ail rheol er rhwyddhau seiniau yr iaith, ydyw talfyru llythyrenau allan o eiriau; ac wrth-gwasgu dwy ran ymadrodd i un, megis yn y geiriau hyn—talfyrir *a* ac *ei* i *a'i*, a gadewir i'r nôd sillaf-goll i lywodraethu y synwyr, fel yma—ei lun *a'i* liw, yn lle—ei lun *a ei* liw; ac wrth hyny yn gwasgu y cysylltiad *a* a'r rhagenw *ei* i un ran-ymadrodd, sef, cysylltiad rhagenwol.

Gall *a'i* sefyll am arddodiad rhagenwol fel hyn hefyd—"tor ef *a'i* gyllell;" *a'u* a saif am arddodiad rhagenwol eto, megis, "a'r oen *a'u* gorchfyga hwynt," (gadawir *e* allan). Gwasanaetha *a'm* yn lle cysylltiad a rhagenw; megis, "Mysi *a'm* tad:" saif hefyd am arddodiad rhagenwol; megis, gweithiaf *a'm* holl egni. Saif *a'n* yn lle cysylltiad a rhagenw; megis, "Ein meibion *a'n* merched;" ac am arddodiad rhagenwol, fel hyn—"Nyni a'i gwnawn *a'n* dwylaw." *A* ac *eich* a dalfyrir i *a'ch*; fel hyn—"*a'ch* meibion *a'ch* merched a freuddwydiant freuddwydion." *A* ac *yr* a dalfyrir i *a'r* gan eu gwasgu i gysylltiad banodawl; megis, "Y ddafad *a'r* oen;" hefyd yn arddodiad banodawl fel hyn—"taro ef *a'r* morthwyl:" ac hefyd yn ferf fanodawl, megis—"paham nad *a'r* dwfr allan?" *A* ac *yth* a dalfyrir i *a'th*, yn y cysylltiad rhagenwol canlynol—tydi *a'th* dylwyth; yn arddodiad rhagenwol hefyd, megis—teimla hwn *a'th* law. Cyll *ym* yr *y* hefyd bob amser ar ol yr arddodiad *i*; megis, am *i'm* ddywedyd. Cyll *ein ei* hefyd bob amser ar ol yr arddodiad *i*; megis, na ddeued *i'n* hysgol mwy. Cyll *yth* yr *y* ar ol *i*, fel hyn, dos *i'th* faes. Cyll *ei e* ar ol yr arddodiad *o*; megis, a ddaeth Ieuan *o'i* ystafell?" Cyll *ym* yr *y* ar ol yr arddodiad *o*; megis, dos *o'm* blaen i. Cyll *ein ei* ar ol *o*; megis, gollwng y mochyn *o'i* dwll. Cyll *yr*, *y* ar ol *o*; megis, dos *o'r* tŷ. Cyll *yth* yr *y* ar ol *o*; megis, dos *o'th* dŷ.

Y drydedd reol er rhwyddhau seiniau yr iaith, ydyw gosod llythyren i mewn, neu ychwanegu y lythyren *h* at eiriau a fyddo yn dechreu efo llafariaid; megis o flaen *a* pan fyddo y rhagenw *ei* yn cyfeirio at y rhyw fenywaidd, fel hyn—ardal, ei *h*ardal; hefyd ar ol y rhagenw *ein*, ar ol y rhagenw *eu* (lluosog), megis—aden, ei *h*aden; achos, ein *h*achos; ach, ei *h*ach; ebol, ei *h*ebol; elw, ein *h*elw; ysdor, eu *h*ysdor; ynys, ein *h*ynys; olew, eu *h*olew; arfer, eu *h*arfer, &c.

Meddyliwyf fod y darllenydd erbyn hyn yn deall fy mod inau yn cydnabod cyfnewidiad y llythyrenau o'r naill i'r llall er rhwyddhau y sain. A bydded hysbys i Mr. Jones fy mod yn gwybod ychydig am oresgyniad llythyrenau o'u seiniau gwreiddiol; fel na byddo iddo dreulio ei nerth i fy argyhoeddi, o beth ydwyf yn argyhoeddedig eisioes. Pe amgen, byddwn o angenrheidrwydd i ddarllen fy Meibl fel hyn:—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a yr daiar." "A yr daiar oedd afluniaidd a gwag, a tywyllwch oedd ar gwyneb y dwfnder; ac ysbryd Duw yn ymsymud ar gwyneb y dwfroedd."

Methwyf yn deg a deall pa beth y mae ein hathraw Jones yn ei feddwl wrth ddywedyd fel hyn:—"Er mwyn gochelyd safnrythni yr arferir *yr* yn lle *y* o flaen llafariad; os na ddylid ysgrifenu YN, YM, YNG, ni ddylid chwaith arferu *yr*, ond *y* yn unig, a dywedyd—*y* angel, *y* udgorn."

Fy athraw; onid oes dwy fannod yn ein hiaith, un i wasanaethu o flaen llafariad, a'r llall o flaen cydsain? A phwy a ddywedodd na ddylid ysgrifenu *yn*, *ym*, ac *yng*? Dywedyd na ddylid ysgrifenu y naill yn lle y llall ydwyf fi. Gwn fod y fath eiriau ag *yn*, *ym*, ac *yng*, i'w cael—eu bod yn sefyll am ranau

ymadrodd, ac nad ellir geirio llawer o frawddegau hebddynt: ond dywedyd ydwyf fi, y dylai *yn* gael sefyll yn annrheigledig, ac nid *yn* YM, neu *yn* YNG, a hyny yn ddiwahaniaeth.

Dywed Mr. J. fel hyn eilwaith:—"Yr ydwyf wedi dywedyd o'r dechreu fod llythyrennau yn newid o un i'r llall er mwyn rhwydd swn, [pwy ddywedodd na?] megis—llawn, cyflawn, nid cyf*ll*awn; llwydd, affwydd, nid af*ll*wydd; rhaid, afraid, nid *an*raid."

Gellid meddwl wrth Mr. J. mai un flaenddawd nacaol y sydd. Yr ydym ni wedi cael ein dysgu fod dwy a deugain o flaenddodiaid yn yr iaith, a phump o'r rhain yr un ystyr; ïe, deuddeg o honynt yr un ystyr; ond nid yr un sŵn er cydweddu o flaen sciniau gwahanol. Ystyr *a* fel blaenddawd ydyw cangu, neu nerthu ystyr y sill neu y gair sydd yn canlyn; megis—dysg, *a*ddysg. *Er*, blaenddawd eto lledgyfystyr ag *a*; sef, ëangu neu nerthu ystyr y gair sydd yn canlyn. Wel, ai priodol dywedyd fod *a* yn cyfnewid i *er* oblegid fod y ddau flaenddawd yn gyfystyr? Os ydyw yn briodol cyfnewid *a* i *er*, herwydd hynyna, onid ellir gyda'r un priodoldeb ei gyfnewid i *ach*, *add*, *ar*, *dar*, *dir*, *dy*, *dym*, *dys*, ac i *try*, *gor*, *&c.*, herwydd yr un ystyr ydynt fel blaenddodiaid ag A. Wele yn awr dwy flaenddawd o'r un ystyr, ydyw *af* ac *an*, a thebygol yr ystyria Mr. J., gan fod y ddau flaenddawd o'r un ystyr, mai cyfnewidiad yw y naill o'r llall.

Siarad *nonsense* ydyw peth fel yna, debygwn i. Gallwn inau resymu, os yw, fod dau flaenddawd cyfystyr, neu o'r un ystyr, yn ddigon o brawf mai tarddiol ydyw y naill o'r llall; fod *an* yn newid i *dis*, herwydd yr un ystyr fel blaenddodiadau ydyw *dis* ac *an*; sef, troi y gair yn ei ol, megis—cloff, *dis*gloff, &c. Rhagor etto ar y pwnc oddiwrth

Yr eiddoch, &c.,

S. EDMUNDS, (*Mabanian*).

[Y mae'r Llythyr uchod, fel y mae, wedi troi i maes yn feithach nag oedd yn gyfleus i ni. Ond nis gallem ei dori yn yr haner heb wneud cam âg ef. Gall ein Gohebydd roddi sylwedd yr hyn a adawyd allan o'i ddiwedd, yn ei lythyrau dyfodol, os gwelir hyny yn gymmwys; ond rhaid iddo ochelyd pob rhyw gyfeiriadau personol, angharuaidd ac afreidiol; a chadw at y ddadl, a dim ond y ddadl.—GOL.]

AR ERLEDIGAETH.—"Na chondemniwch un dyn am beidio meddwl yr un modd a chwi. Bydded i bob dyn fwynhâu y cyflawn ryddid o feddwl drosto ei hun. Bydded i bob dyn ddefnyddio ei farn ei hun. Casewch pob dynesiad, mewn un modd na gradd, i ysbryd erledigaeth. Os nad ellwch berswadio dyn i'r gwirionedd trwy ymresymu ag ef, na chynnygiwch fyth ei wthio iddo trwy drais. Os na wna cariad ei gymmell i ddyfod, gadewch ef i Dduw, Barnwr pawb."—*Wesley*, tud. 414, Cyfr. 6.

TRIOEDD BARDDAS.—Tair colofn barn; ëon amcan, mynych arfer, a mynych gamsynied.

Tair ansawdd barddoniaeth; athrylith awen, barn wrth ddysg, a gwynfyd meddwl.

Tri chelwydd y sydd; celwydd gwedyd, celwydd taw, a chelwydd ymddwyn; a phob un a bair credu nas dylid.

AM DDARFODEDIGAETH YR YSGEFAINT.

(*O'r Meddyg Teuluaidd.*)

Y MAE Darfodedigaeth yr ysgefaint yn cydfyned âg ymwasgiad cyffredinol, gwendid, poen yn yr ochr neu y ddwyfron, gradd o ddiffyg anadl ar ol cerdded nen ymddiddan, a pheswch, yr hwn sydd fwyaf poenus yn gyffredin tua'r boreu. Pan fyddo wedi myned i radd bell, y mae yr hyn a beswch-boerir yn grawnllyd, ynghyd â thwymyn barhaus, a'r rhyddglwyf.

Nid yw y Ddarfodedigaeth ysgefeiniol yn digwydd yn aml hyd ar ol amser addfedrwydd, ond y mae yn brofedig ei fod wedi cymeryd lle mewn rhai achosion cyn yr amser hyny, trwy gyfodiad mân gornwydydd yn yr ysgefaint.

Y mae benywod yn fwy darostyngedig iddo nâ gwrywod, am eu bod yn arfer ysgafnach gwisgiad, yn gystal ag o herwydd eu bod o wneuthuriad tynerach.

Y mae yr achosion rhagdueddol i'r clefyd hwn yn lluosog iawn; pa fodd bynnag, y rhai canlynol ydynt y mwyaf cyffredin:—rhagdueddiad etifeddol; y corff wedi ei ffurfio mewn dull bennodol, adnabyddus wrth wddf hir, ysgwyddau picca, a dwyfron gul; ansawdd fanwynog, amlygedig trwy groen llyfn goleu, gwallt teg, lliw coch gwanaidd, gwythienau mawr, gwefus uchaf dew, llais gwanaidd, a theimladrwydd buan; rhai clefydau, megis anwyd yn y pen, yr eisglwyf, gwaed-boeriad, manwynon, y frech wen, a'r frech goch; rhai galwedigaethau ag ydynt yn gosod y celfyddydwyr yn agored i fân lwch esgynedig, megis blaenllymwyr nodwyddau, naddwyr cerig, melinwyr, &c., neu i fygdarth delid a mwyn mewn awyr gyfyng ac afiachus; nwydau ffyrnig, ymdrechiadau neu gyffroadau y meddwl, megis tristwch, siomedigaeth, trymfryd, neu lynu gormod wrth fyfyrio, heb ymarferiad priodol; chwareu gormod ar chwyth-offerynau cerddoriaeth; mynych anlladrwydd, gwylied yn hwyr, ac yfed yn helaeth o wirodau cedyrn; arlloesiadau mawrion, megis y rhyddglwyf, dyfrlif, gormod o gydorweddiad, y gwyn-rediad, rhediad anghymedrol o'r didoliad misol, parhau i roddi sugn yn rhy hir pan mewn sefyllfa o wendid; cymhwysiad pethau oer at y corff, naill ai trwy newid dillad yn rhy ddisymwth, gwisgo dillad gwlyb, gorwedd mewn gwelyau llaith, neu ddynoethi y corff yn rhy ddisymwth i awyr oer, pan fyddo wedi cael ei dwymo trwy ymarferiad; yn fyr, trwy unrhyw beth a atal chwysiad i radd bell.

Yr achosion mwyaf uniongyrchol neu achlysurol o Ddarfodedigaeth, ydynt, enyniad yr ysgefaint, anwyd yn y pen, y frech goch, anadlwst, a mân gornwydydd yn yr ysgefaint (pa rai mewn pedwar achos ar bymtheg o bob ugain ydynt yn ymddibynu ar gyfansoddiad manwynog), y diweddaf o'r rhai hyn ydyw yr amlaf o lawer. Y mae y cysylltiad ag sydd rhwng y manwynon â Darfodedigaeth yr ysgefaint yn amlwg, ac y mae yn cael ei gydnabod yn gyffredin; nid yw y diweddaf yn fynych ddim amgen nag arwyddion cyfansoddol y rhai oeddynt blanedig yn y natur fanwynog.

Y mae y manwynau yn aml yn rhedeg i'r ysgefaint pan fyddo yn diflanu o arwyneb y corff.

Yn wir yr ydys wedi priodoli cynnydd ffyniad y clefyd gorthrymedig hwn yn yr amser presenol yn y deyrnas hon i amrywiol achosion; ac yn mhlith ereill, y defnyddiad cyffredin o lô mwynol i wneud tân, yn lle coed, a dybiwyd gan rai personau i fod yn ddigonol o hono ei hun i ateb am dano. Ond dylai y cyfnewidiadau mawrion a disymwth tymheredd neu yr anwadalwch i'r hwn y mae y rhan hyn o'r ddaear yn ddarostyngedig, gael ei ystyried fel yr achos gwirioneddol o amlder a ffyniad y clefyd hwn; ac y mae genym achos mawr i gredu fod gwres a chyfyngder ein tai a'n hystafelloedd, ynghyd â gwisgiad prin, ysgafn, a distadl ein benywod a arferant ddilyn y gwisg-ddefodau, yn cynnyddu yn fawr iawn y gogwyddiad at yr anhwylderau.

Wrth nodi allan yr achosion o amlder Darfodedigaeth yr ysgefaint, yr ydwyf yn tybied y gellir gosod i mewn y manwynon yn eu plith, yr ydym, gan hyny, yn cyfarfod â mwy o rifedi o Ddafodedigaethau plorynog nag o un rhywogaeth arall. Y mae plant yn cael y rhagdueddiad i'r manwynon oddiwrth eu rhieni, ac y mae y clefyd rhyw bryd neu y llall o'u bywyd yn dangos ei hun, naill ai trwy enyniad rhai o'r chwarenau, y

rhai a grawn/int ac a dorant yn allanol; neu trwy fân gornwydydd yn yr ysgefaint, y rhai ydynt yn gori, ac yn dyfod yn weliau neu glwyfau crawnllyd, ac yn terfynu mewn Darfodedigaeth.

Ni ellir gwadu nad yw y marwolaethau trwy Ddarfodedigaeth wedi cynnyddu yn ddirfawr yn y canrif diweddaf yn Mhrydain Fawr; ac yn ol cyfrifiad ysgrifenydd diweddar, nid yw y rhai a syrthiant yn flynyddol yn ysglyfaeth i'r Darfodedigaeth yn yr ynys hon, ddim llai nâ phumtheg mil a deugain o bersonau allan o un filiwn ar ddeg o drigolion.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CODI MILITIA.

Yr ydys yn ddiweddar wedi bod yn traddodi darlithiau mewn tai-cyrddau ar hyd y wlad yn erbyn codi Militia. Y mae'r darlithwyr o bosibl mewn cysylltiad a'r *Peace Society*. Pa fodd bynag y mae yn ddiau mai gwaith da ac angenrheidiol bob amser, yw dangos drygau rhyfel a'r drwg uffernol o annog rhyfel. Sylwodd un a fu yn eu gwrando wrthym, mai da iawn fyddai, pe dewisid y goreu a'r galluoceaf o'r darlithwyr hyn, a'u hanfon i lysoedd Louis Napoleon, Ymherawdwr Awstria, a'r lleill, o'r gormeswyr cyfandirol sydd yn bygwth y cledd ar bawb a feiddiant godi eu llais o blaid rhyddid a chyfiawnder, fel ag i wrthwynebu eu hamcanion hwy; ac i geisio argyhoeddi y gwyr *rhyfelgar* hyn o'u pechadrusrwydd a'u ffolineb. Nad yw trigolion y wlad hyn yn caru nac yn ewyllysio rhyfel; ond y dymunent i'w llywodraethwyr eu gosod yn ddiogel yn erbyn ymosodiadau gelynion tramor. Ac er, yn y cyfarfod y bu efe ynddo, na chasglwyd, fel y deallai efe, ond *tair ceiniog* yn y *gallery* tuag at draul y darlithwyr, wedi'r holl chwerthin a churo dwylaw; dywedodd y byddai efe, er nad oedd gyfoethog, yn foddlon i gyfranu *tri swllt* a rhagor hefyd, er mwyn danfon y darlithwyr i argyhoeddi y rhai oeddent mewn angen o argyhoeddiad. Yn awr, dichon fod ein hysbysydd yn gamsyniol parth y swm bychan a gasglwyd at yr achos yn y *gallery*, ac nid y'm ni yn attebol y bydd iddo ychwaith dalu ei dri swllt neu ragor, pan fyddo galwad. Ond yr ydym yn adrodd y peth a glywsom. Deuller hefyd, ein bod ni, hyd yr eithaf, yn erbyn rhyfel.

Y mae "Caledfryn" hefyd, (yn y *Gwron Cymreig*, Mawrth 11,) yn codi ei lais, gyda'i nerth arferol, yn erbyn y *Militia Bill*. Dywed, "Na fu cynygiad mwy afresymol erioed mewn amryw ystyriaethau, canys fe sicrhawyd wrthym gan y Frenhines, wrth agor y Senedd, fod perffaith ddealldwriaeth rhyngddi hi â holl alluoedd Ewrop. Mynegai Iarll Derby nad ydyw yn mryd Louis Napoleon aflonyddi ar heddwch y wlad yma. Barnai Iarll Grey nad oes y sail leiaf genym i ofni. Y mae Arglwydd J. Russell yn hollol o'r farn nad oes unrhyw berygl. Y mae Arglwydd Palmerston wedi tystio fod cystal dealltwriaeth rhyngom a gwledydd ereill ag a ddichon fod."

"Yn bresenol a ydym ni i gredu y boneddigion hyn neu beidio; os ydym i'w credu dyna y sail dros godi'r milwyr wedi cwympo ar unwaith." Sicr nas gellir cyfiawnhau yr anghysondeb o lefaru mewn un modd, a threfnu mewn modd arall. Ac y mae Caledfryn yn ymresymu yn deg ddigon, os caniateir y dylai llywodraeth, wrth ymbarotoi mewn amser heddwch yn erbyn y perygl o ryfel, nodi pa un, neu ba rai ydyw y gelyn neu'r gelynion yr ydys yn eu hofni; a thrwy hyny ychwanegu'r perygl. Er cydnabod y *fact* o fod ein perthynasau tramor mewn ymddangosiad yn bur heddychol ar hyn o bryd, nid ydyw yn caniyn y byddant i barhau felly yn hir. A beth bynag a ddywedwyd, neu na ddywedwyd, gan y penaethiaid cyfeiriedig ar y pen, y mae yn amlwg eu bod hwy oll yn ystyried *fod* perygl o i ni golli heddwch â rhai o deyrnasoedd y cyfandir. Ac os felly, nis gellir eu beio am geisio gosod y wlad mewn cyflwr o ddiogelwch. Dichon eu bod yn camsynied; gobeithiwn eu bod. Ond nid yw gwadu'r perygl ddim yn ei symud—*Fore-warned is fore-armed.*

Nis gwyddom etto beth fydd y *Militia-Bill* a fydd wedi ei gynnyg gan weinyddiaeth Iarll Derby cyn diwedd Mawrth. Yr oedd amryw bethau tra gwrthwynebus yn y *Bill* a gynnygiwyd gan Arglwydd J. Russell. Fel y sylwa Caledfryn yn dda—"Heblaw fod y sefyllfa o fod yn filwr cyffredin yn un o'r pethau mwyaf gwaradwyddus ac iscl, y mae creulondeb y mesur yn anoddefol; oblegid gorfodir dyn ieuanc yn yr oed gofynol, i adael ei alwedigaeth, lle y byddo yn enill pedwar swllt yn y dydd, mwy neu lai, a gwneir iddo dderbyn *swlt yn y dydd!* Rhaid iddo hefyd fyw bywyd gwaradwyddus

milwr, yr hyn sydd yn gwneud y peth yn erchyll; ac nid yw ei erchylldod yn terfynu yn y fan yma, ond rhaid i bob un y disgyno y coelbren arno fyned i wasanaethu drosto ei hun, ni chaiff brynu dyn yn ei le!! Y mae hyn yn dyblu yr erchylldod. Ni fu erioed godi milwyr na chai dyn brynu dyn yn ei le; ond ni chaiff wneud hyny, yn bresenol, [yn ôl Bill Arg. J. Russell] yr hyn a wna y caethiwed yn fwy erchyll fyth."

Y mae eraill wedi bod yn beio'r llywodraeth am beidio cefnogi *Volunteer Rifle Clubs*, neu fod y trigolion o'u gwirfodd yn ymgorffoli i ddysgu defnyddio arfau, er mwyn bod yn alluog i amddiffyn eu gwlad mewn dydd o berygl

Y WEINYDDIAETH.

Wedi ymgyfarfod o'r Senedd nos Wener, y 27 o Chwefror, i glywed pa beth oedd gan Iarll Derby i ddweud drosto ei hun a'i gydswyddogion, am gymeryd awenau'r llywodraeth i'w dwylaw, gohiriwyd yr eisteddfod hyd y 12fed o Fawrth, er mwyn rhoddi amser i'r gweinidogion hyny ag oeddent yn aelodau o'r Tŷ Cyffredin, i gael eu hailddewis gan yr etholwyr yr oeddent yn eu cynrychioli, All-ddewiswyd hwynt oll, oddieithr Arglwydd Naas, yr hwn a gollodd ei le am *Kildare* yn yr Iwerddon.

YR ANTI-CORN-LAW LEAGUE.

Yn y cyfamser ni fu gwyr y *League* yn segur; eithr gwnaed ymbarotöadau o ddifrif tuag at frwydr adnewyddol yn erbyn *Protection*, os bydd rhaid. Cyfranwyd seoroedd o filoedd o bunnau tuag at y *Fund* mewn amser byr. Ymhlith eraill gwelwn fod yr *Ebbw Vale Company*, wedi cyfranu dwy fil o bunnau. Gellir casglu oddiwrth hyn ac oddiwrth ymddangosiadau eraill, y bydd y frwydr nesaf rhwng y ddwy blaid yn un boeth dros ben. Nid all y *Protectionists* droi eu cefnau, heb golli eu cymeriad gyda'u pleidwyr yn y wlad. Y mae egwyddorion a phroffesiadau Arglwydd Derby ar y pen yn ddigon adnabyddus, a dyweuir ei fod ef ar efylychu Louis Napoleon mewn un peth; sef, y myn ef mai'r cwestiwn y gofynir attebiad iddo yn yr Etholiad dyfodol, fydd, Pa un a ewyllysia'r wlad i fod dan ei lywyddiaeth ef a'i blaid, ai peidio; *ie*, neu *nage?*

CYFARFOD Y LIBERALS YN CHESHAM PLACE.

Ar y 9fed o Fawrth ymgyfarfu 168 o aelodau Ty'r Cyffredin, y sy'n myned dan yr enw *Liberals*, trwy wahoddiad oddiwrth Arglwydd J. Russell, yn ei dŷ ef, yn Chesham Place; er mwyn ymgynghori pa beth i'w wneuthur yn yr amgylchiad presenol. Y llefarwyr oeddent Arglwydd J Russell, Mr. Villiers, Mr. Cobden, Mr. Hume, Mr. T. Duncombe, Mr. Bright, Sir De L. Evans a Mr. R. D. Mangles. Y penderfyniad a ddaethpwyd iddo, oedd i alw ar y Weinyddiaeth i roddi atteb pendant i'r cwestiwn, Pa beth oeddent yn fwriadu mewn perthynas i *Protection*, neu gosod ardreth ar yr ymborth a ddygir yma o wledydd tramor; ac os na byddai yr atteb yn foddlonol, y byddent, ar ol passio'r cyfreithiau angenrheidiol, i orfodi'r Weinyddiaeth i roddi i fynu eu swyddau, neu ynte i ollwng y Senedd ac i gael etholiad cyffredinol yn ddioed.

Y SENEDD.

Dydd Gwener, y 12 o Fawrth, ymgyfarfu'r Senedd yn ôl y gohiriad. Hysbysodd Arglwydd St. Leonards, y Canghellwr newydd, yn Nhŷ yr Arglwyddi, fod Gweinyddiaeth Iarll Derby yn bwriadu cario yn mlaen y diwygiadau cyfreithiawl a gynnygiasid gan y Weinyddiaeth flaenorol—megis, y *Suitors in Chancery Relief Bill*, y *Common Law Proceedings Bill*, &c.

Yn Nhŷ y Cyffredin, hysbysodd Arglwydd J. Russell ei fod ef yn rhoddi i fynu ei *Reform Bill* yn bresenol, o herwydd nad oedd neb, yn ol ei dyb ef, oddieithr y Llywodraeth, yn gymmwys i ddwyn *Bill* o'r fath natur yn mlaen trwy'r Senedd. Ond dywedodd nad oedd ef yn addaw peidio galw ar y Tŷ i dystio, eu bod yn ystyried fod diwygiad o'r fath a gynnygiasai yn angenrheidiol.

BWRIADAU Y LLYWODRAETH.

Y Llun canlynol (Mawrth 15), yn Nhŷ yr Arglwyddi, cyfododd Arglwydd Beaumont i ofyn y cwestiwn y rhoddasai rybudd am dano: sef, "A ydyw y Llywodraeth ai peidio, yn bwriadu cynghori'r Senedd i wneud cyfnewid ar y drefn bresenol, parth dygiad ŷd i mewn o wledydd tramor, mor gynted ag y gall y Senedd newydd ymgynnull?" Attebodd Arglwydd Derby gyda chryn ymddangosiad o flinder ac afionyddwch. Nad ydoedd yn gyfiawn tuag y wlad, iddo ef fel hyn gael ei rwystro i gynnyg y mesurau angenrheidiol tuag at reoli y cyllid a'r trethi, a pharotoi at amddiffyniad y wlad. Dywedasai eisioes mai yr Etholiad nesaf oedd i benderfynu am byth unrhyw gwestiwn a dichon fod yn aros parth ein cyfreithiau masnachol, Ond yn y cyfamser, mai gwae ddelai i'r dynion hyny ag oeddent, er mwyn amcanion eu pleidgarwch, yn ceisio taflu rhwystrau ar ffordd gweinyddu llywodraeth y tir. Nid oedd dim achos i beri un braw neu arswyd; yr oedd y *funds* yn cadw yn uchel ac yn sefydlog. Nad oedd efe yn ewyllysio myned yn ol at gyfraith

1846 na 1842, ond deisyfai ar y wlad i beidio cymeryd ei harwain ymaith gan waeddiadau dynion terfysglyd a pheryglus. Cyfeiriai gyda diglionedd at ymddygiad Arglwydd J. Russell, yr hwn, er iddo fethu cadw ei le wrth y llyw, a wnelai mor fach o hono ei hun ag i ymgyfeillachu ac i gyd-weithio a'r *Radicals*, er mwyn aflonyddu'r Weinyddiaeth a ddaeth ar ei ol ef; yr hyn a roddai ar ddeall y byddai Gweinyddiaeth nesaf Argl. J. Russell ar sylfaen mwy helaeth na Whigiaeth. Y byddai iddo ef (Arg. D.) fyned i'r wlad, at yr etholwyr, bryd bynag y byddai hyny y gyson â'i ddyledswydd i'w Frenhines ac i'r wlad; ond nid ar y fath gwestiwn ag a nodwyd. Gadawai hwnw i ystyriaeth bwyllog y wlad. Os byddai'r wlad a'r Senedd dros gael *Protection* yn ol, na chai dim ei rwystro ef i wneyd y cynnygiad. Ond nas cynnygia y fath beth *gydag ond braidd mwyrif.* Yna dywed mai ar y tir hyn yr appelia at y wlad, am iddo ef a'i blaid gael eu cadw mewn awdurdod. Sef, am ei fod ef a'i gyfeillion, mewn awr o berygl, wedi cymeryd at y llong pan oedd y llywydd wedi gadael y llyw. [Gellid casglu ei fod yn tybied nad oedd dynion mor anenwog a Clarendon, Graham, Cobden a'r cyffelyb, na neb oddieithr ef ei hun a'i blaid, yn alluog, yn y perygl, i weithio llong y wladwriaeth, nac yn foddlon i ymborthi ar y torthau swyddedigaethol.]—Am y byddai ei lywodraeth ef, tra yn erbyn ymosodiadau gelynion tramor, i *gynnal heddwch y byd*, ac i ddal i fynu *sefydliadau Protestanaidd y Wlad*, i roddi nerth adnewyddol i *addysgiad crefyddol a moesol* trwy gyrrau'n tir, ac i wrthwynebu y cenllif o ddylanwad y bobl (*democratic influence*), yr hwn fyddai yn rhoddi awdurdod niweidiol i derfysgwyr (*demagogues*).

Mewn attebiad i ofyniad Marquis Clanricarde, dywedodd yn mhellach, mai ei feddwl ef ydoedd, na fyddai iddo gynnyg dwyn *Protection* yn ôl oddieithr y gallai ei gario gyda mwyrif digonol o'r Senedd. Ond etto, p'un ai mewn swydd, neu allan o swydd, y byddai efe yn barhaus dros drefn amddiffynol (*Protection policy*) gyda golwg i ysgafnau'r beichiau sydd ar dyddynwyr a pherchenogion tir mewn canlyniad o rydd fasnach.

Dydd Gwener, Mawrth 19, mewn attebiad i Duc Newcastle, dywedodd Iarll Derby, Na ddylai yr hydref nesaf gael myned heibio, heb i'r ddadl ynghylch *Protection* gael ei phenderfynu gan Senedd Newydd. Na roddai efe un addewid am yr amser y gwneir yr Appel at y wlad, pa un ai yn Ebrill, yn Mai neu yn Mehefin. Gellir ynte fod yn sicr fod yr Etholiad Cyffredinol i gymeryd lle o fewn byr amser—y mae wrth y drws. Y mae nifer mawr o'r ymgeiswyr eisioes yn ddiwyd y maes.—Yn y yn cyfamser y mae matterion anhebgorol y llywodraeth yn cael eu gyrru yn mlaen mor gyflym ag sydd bosibl. A rhoddir ychydig amser i'r etholwyr i wneud eu meddwl i fynu, dros bwy, a chyda pha un o'r pleidiau y rhoddant eu llais—hyny yw, y rhai hyny o'r etholwyr a feiddiant roddi eu pleid-lais yn ôl eu barn a'u cydwybod eu hunain.

Yn ein rhifyn nesaf, bydd genym ragor, o bosibl, i ddywedyd ar y pen hwn,

Y CYFANDIR.

Nid oes dim newydd neilldiol yn ddiweddar o'r Cyfandir. Goddefir i Louis Napoleon hyd yma i fyned ymlaen a'i rwysg ben-arglwyddiaethol. Nid oes wythnos braidd yn myned heibio heb fod rhyw orchymyn newydd yn cael ei gyhoeddi gan ddo. Y mae yn ymddangos yn barhaus yn bur ofalus na chaiff neb fod mewn swyddau o awdurdod neu ddylanwad, oddieithr y rhai a foddlonant i fod yn offerynau parod i'w law. Yn ol un o'r cyfryw orchymynion (*decrees*) ystyrir fod pob swyddog, neu seneddwr yn rhoddi i fynu ei swydd, oni bydd iddo gymeryd llŵ "o ufydd-dod i'r *Constitution* ac o ffyddlondeb i'r Llywydd"

TERFYNIAD DISGWYLIEDIG Y RHYFEL A'R CAFFRES.

Y mae llythyron o Benrhyn Gobaith Da, (*Cape of Good Hope*) dyddiedig Chwefror 3dd, yn hysbysu fod rheswm da i gredu, fod terfyn wedi cael ei osod erbyn hyn ar y rhyfel trychinebus yn Neheudir Affrica. Gyrrwyd y Caffres mor galed fel y darfu iddynt geisio ammodau heddwch a Syr Harry Smith; ond ni wrandawai y Cadfridog ar ddim oddieithr iddynt roddi eu hunain i fynu yn ddiammod, a rhoddai wythnos iddynt i ystyried. Ar ddiwedd yr amser hwnw torodd y milwyr ar draws tiroedd y Caffres, a dechreusant ddinystrio eu cnydiau. Ar y 26, ar 27ain o Ionawr, yr oedd y gwyr traed dan orchymyn i ymosod, mewn saith colofn, ar yr Amatolas, ond nid ydym wedi cael hysbysrwydd pellach am eu helynt.

Marwolaeth.

Dydd Gwener, Chwefror 20, yn 68 oed, Catherine, priod Dafydd Thomas, *Dosbarthwr yr Ymofynydd*, Moss House, Aberdâr. Dioddefodd hir gystudd yn dawel ac yn amyneddgar, o'r diwedd anfonodd Duw ei gennad i roddi terfyn er ei heinioes, a diben ar ei phoen a'i chystudd mwyach. Y mae ei chyfeillion a'i perthynasau anwyl yn alarus ar ei hôl. Yr oedd yn hen wraig barchus a chyfrifol, o ymarweddiad onest a charuaidd yn ei chymydogaeth; bu yn aelod hardd gyda'r Undodiaid yn yr Hen Dŷ Cwrdd am lawer o flynyddau.

Barddoniaeth.

AWDL I'R EFENGYL.

Efengyl fad, rad, a rydd—i ddynion
Dyddanwch diyspydd:
O, gwiliwn gyda'n gilydd,
I'w derbyn hyd derfyn dydd

Hi esyd ma's ras Duw'r hedd—yn eglur,
Ei hyglod amynedd;
A'i dra hynaws dirionedd
I ddynion gwaelion eu gwedd.

Os aethus, dyrus flinderon—llwythog,
Sy'n llethu y ddwyfron,
Ceir gwynfyd hyfryd yn hon,
Ac eli mwyn i'r galon.

Gallu ein Tad mad er maeth—i'r enaid,
Yw'r anwyl wech araeth;
Idd yr adyn cyndyn caeth
Fe ddug hon feddyginiaeth

Gair cu, gair Iesu grasol—gair iachus,
Goruchel a nefol;
A'n geilw o'n ffyrdd gwaelion ffol,
Yw ei llais taer a llesol.

Mynegfys hyspys yw hon,
I yr enwog lwybr union,
A'n tywys i'r wlad dawel,
Lle rhed llaeth er maeth a mêl:
Cul yw'r nefol hëol hon,
Yn ddigel, ond mae'n ddigon,
Ehelaeth, i bawb hwylio,
I'r anfarwol freiniol fro.

Y lân eurdeg,
Nefol anrheg,
A'r ddwys gudeg wir ddysgeidiaeth,
Rydd gynhygion,
'Nawr i ddynion,
O wych dirion iechydwriaeth.

O lys y gwawl, fywiawl fan,
Y ddoeth wyllys ddaeth allan.

Ië'n Duw anwyl, sy'n llawn daioni,
A roddodd enwog Eneiniog ini;
Ein brawd trwyddedog fu'n brwd draddodi
Yn ffyddlawn y diriawn genadwri;
Ar y groes yn oer ei gri—O gwelwch!
Yn ei fawr dristwch bu farw drosti!

Cyfiawn i ni yw cofio
Ei fawr aidd,* pan farw O: [*zeal
O, er ein mwyn, Aer Ion mad,
O'i ragorol wir gariad;
I'n dwyn o'n coll yn hollol,
O efyn gwŷd i'w fwyn gol.

Caddug a fu yn cuddio
Do, cyn hyn bob bryn a bro;
Ond darfu y gwyll dirfawr,
Daeth goleuni i ni 'nawr.

Trwy ei llewych
Y cawn edrych
Ar wir orwych wâr ororau;
Ardal siriol
Salem nefol,
Uwch oer ingol echur angau.

Er bod hefyd
Am fer enyd
Yn y gweryd, Ow yn gorwedd;
Gwelwn trwyddi
Ddydd yn tori
I'n cyfodi, cuaf adwedd.

Yngwawl yr Efengyl hon
Y gwelaf yn dra gwiwlon,
Cawn ddydd y farn ein barnu,
A'n hethol, dëol rhyw du;
Ein hadwaen 'nol ein nodwedd
Drwy y byd cyn myn'd i'r bedd.

Yn awr, a ydyw 'n rhodiad
Yn unol â'r rheol rad?
Gwelwn er mawr gywilydd,
Gwahaniaeth, ysywaeth, sydd.

Trown o'n gwydus
Ffyrdd twyllodrus
A'n hoer farus anwar fwriad;
Ynddi rhodiwn
"Hon cofleidiwn,"
Yna codwn enw ein Ceidwad.

Os trown, os hedwn o hyd—yn gu-lon
Yn ei golau hyfryd,
A chalon ddifrycheulyd,
Maddeuant llawn gawn i gyd.

O'n bodd yn awr byddwn ni
Yn addas ddeiliaid iddi.

Dyrchafwn hwylus, felus, wir foledd
I'n Twr gorau, Duw mawr y trugaredd,
Am inni i gael o'i ddirfawr haeledd
Yr unig eli a bur ein gwaeledd;
I fil daeth mawr orfoledd—trwy ganfod
Y pur air hynod, a'r pêr wirionedd.

Prysured, deued y dydd—y gwelir
Ei gwawl trwy'r holl wledydd;
Nes troi 'nol y ffol di ffydd—yn raddol,
I ffwrdd o'i niweidiol ffyrdd annedwydd.

Henffych i'r dydd dedwydd, da,
Hafaidd ar feib Jehofa,
Pan cludir, dygir pob dig
O'n brodir lân buredig.

Daw hon i bob bron mewn bri—ei harddwch
Mewn urddas a mawrfri;
Daw anian llawn daioni,
A daw Un Ner da i ni.

Cribyn. D. T. CEREDIGION.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.